

Agenda

Teitl y cyfarfod: **Diwrnod 1 Cyfarfod Bwrdd CNC - Sesiwn Gyhoeddus**

Dyddiad y cyfarfod: **13 Gorffennaf 2022** Amser y cyfarfod: **12.35-16.55**

Lleoliad: **Microsoft Teams**

Amser	Eitem
-------	-------

12.35 (5 mun)	1. Cyfarfod Agored <ul style="list-style-type: none">• Croeso• Datganiad o Fuddiannau• Esbonio sut y cynhelir y cyfarfod
--------------------------	---

Noddwr a Chyflwynydd: Syr David Henshaw (Cadeirydd)

Crynodeb: NODI unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

12.40 (5 mun)	2. Adolygu'r Cofnodion a'r Cofnod Camau Gweithredu 2A. Adolygu Cofnodion Cyfarfod Cyhoeddus 26 Mai 2B. Adolygu'r Cofnod Camau Gweithredu Cyhoeddus Noddwr a Chyflwynydd: Syr David Henshaw (Cadeirydd)
--------------------------	--

CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod diwethaf a'r cofnod camau gweithredu.

12.45 (5 mun)	3. Diweddariad gan y Cadeirydd Noddwr a Chyflwynydd: Syr David Henshaw
--------------------------	--

Crynodeb: NODI diweddariad y Cadeirydd i'r Bwrdd.

12.50 (15 mun)	4. Adroddiad gan y Prif Weithredwr Noddwr a Chyflwynydd: Clare Pillman, Prif Weithredwr
---------------------------	---

Crynodeb: NODI'r sefyllfa bresennol a diweddaru'r Bwrdd ar weithgareddau allweddol.

Cyfeirnod y Papur: 22-07-B07

13.05 (20 mun)	5. Adroddiadau Diweddaru gan y Pwyllgorau Noddwyr a chyflwynwyr: Cadeiryddion y Pwyllgorau
---------------------------	--

Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Ansawdd – 9 Mehefin a 8 Gorffennaf

Cyfeirnod y Papur: 22-07-B08

Y Pwyllgor Cyngori ar Dystiolaeth – 7 Mehefin

Cyfeirnod y Papur: 22-07-B09

Y Pwyllgor Cyllid -10 Mehefin

Cyfeirnod y Papur: 22-07-B10

Y Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd - 1 Gorffennaf

Y Pwyllgor Pobl a Thaliadau - 24 Mehefin

Cyfeirnod y Papur: 22-07-B11

Y Pwyllgor Ardaloedd Gwarchoddedig - 21 Mehefin

Cyfeirnod y Papur: 22-07-B12

Fforwm Rheoli Tir Cymru

Cyfeirnod y Papur: 22-07-B13

Crynodeb: NODI'r diweddariadau gan bwyllgorau'r Bwrdd, y tu mewn a'r tu allan i unrhyw gyfarfodydd a gynhaliwyd.

**13.25
(15 mun)**

6. Diweddariad ar Gyllid

Noddwr: Rachael Cunningham, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol

Cyflwynydd: Rob Bell, Pennaeth Cyllid

Crynodeb: NODI'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf

Cyfeirnod y Papur: 22-07-B14

**13.40
(30 mun)**

7. Adroddiad Diwedd Blwyddyn Dangosfwrdd Perfformiad y Cynllun Busnes 2021/22

Noddwr a Chyflwynydd: Clare Pillman, Prif Weithredwr

Mynychwyr: Caroline Hawkins, Rheolwr Cynllunio Corfforaethol,

Perfformiad ac Asesu Strategol, Sarah Williams, Pennaeth y

Strategaeth Gorfforaethol a'r Swyddfa Rheoli Rhaglenni; Sue

Ginley, Cynghorydd Arbenigol Arweiniol, Cynllunio Corfforaethol

a Pherfformiad

Crynodeb: CYMERADWYO Adroddiad Diwedd Blwyddyn Dangosfwrdd Perfformiad y Cynllun Busnes 2021/22

Cyfeirnod y Papur: 22-07-B15

**14.10
(15 mun)**

Egwyl

**14.25
(20 mun)**

8. Cyfraniad CNC at y Rhaglen Amgylchedd Genedlaethol ar gyfer Adnoddau Dŵr a Gwella Ansawdd Dŵr (PR24)

Noddwr: Ceri Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth,

Polisi a Thrwyddedu

Cyflwynwyr: Sian Williams, Pennaeth Gweithrediadau Gogledd

Orllewin Cymru; Ruth Johnston, Cynghorydd Arbenigol

Arweiniol, Strategaeth Ddŵr; Natalie Hall, Rheolwr, Adfer o

Lifogydd

Crynodeb: TRAFOD cynllun busnes cwmni dŵr Ofwat a chyfraniad CNC at y Rhaglen Amgylchedd Genedlaethol ar gyfer Adnoddau Dŵr a Gwella Ansawdd Dŵr (PR24)

Cyfeirnod y Papur: 22-07-B16

**14.45
(40 mun)**

9. Diweddariad ar Ansawdd Dŵr

Noddwr: Ceri Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu

Cyflwynwyr: Sian Williams, Pennaeth Gweithrediadau Gogledd Orllewin Cymru; Ruth Johnston, Cynghorydd Arbenigol Arweiniol, Strategaeth Ddŵr; Natalie Hall, Rheolwr, Adfer o Lifogydd

Crynodeb: Trafod y diweddariad ar waith presennol yn ymwneud ag ansawdd dŵr

Cyfeirnod y Papur: 22-07-B17

**15.25
(10 mun)**

Egwyl

**15.35
(45 mun)**

10. Rheoleiddio'r gwaith o reoli Adar sy'n Bwyta Pysgod: Argymhellion

Noddwr: Ceri Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu

Cyflwynwyr: Nadia De Longhi, Pennaeth Rheoleiddio a Thrwyddedu; Ben Wilson, Prif Gynghorydd, Pysgodfeydd; Sarah Wood, Rheolwr Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau

Crynodeb: CYMERADWYO yr argymhellion ar gyfer rheoleiddio'r gwaith o reoli Adar sy'n Bwyta Pysgod

Cyfeirnod y Papur: 22-07-B19

**16.20
(10 mun)**

11. Adroddiad Blynyddol 2021/22 ar yr Iaith Gymraeg

Noddwr: Prys Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Datblygu Corfforaethol

Cyflwynydd: Lyn Williams, Cynghorydd Polisi Iaith Gymraeg

Crynodeb: CYMERADWYO Adroddiad Blynyddol 2021/22 ar yr Iaith Gymraeg

Cyfeirnod y Papur: 22-07-B20

**16.30
(10 mun)**

12. Eitemau Cyhoeddus a Phreifat ar Agenda'r Bwrdd

Noddwr: Prys Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Datblygu Corfforaethol

Cyflwynydd: Victoria Painter, Rheolwr Llywodraethu a Risg; Daniel Highway, Contractwr, Llywodraethu a Risg

Crynodeb: CYMERADWYO y meini prawf ar gyfer eitemau cyhoeddus a phreifat ar agenda'r Bwrdd

Cyfeirnod y Papur: 22-07-B21

**16.40
(5 mun)**

13. Newidiadau arfaethedig i'r Cynllun Statudol a Chyfreithiol (SaLS)

Noddwr: Clare Pillman, Prif Weithredwr
Cyflwynydd: Colette Fletcher, Pennaeth Llywodraethu ac
Ysgrifennydd y Bwrdd

**Crynodeb: CYMERADWYO newidiadau i'r SaLS ar gyfer Bwrdd
Busnes y Gwasanaethau Corfforaethol**

Cyfeirnod y Papur: 22-07-B22

**16.45
(5 mun)**

14. Rhagolwg y Bwrdd

Noddwr: Syr David Henshaw
Cyflwynydd: Colette Fletcher, Pennaeth Llywodraethu ac
Ysgrifennydd y Bwrdd

Cyfeirnod y Papur: 22-07-B23

**16.50
(5 mun)**

15. Unrhyw Fater Arall

**a) Adroddiad ar Berfformiad Cyllid hyd at fis Mawrth
2022**

Crynodeb: Er gwybodaeth

Cyfeirnod y Papur: 22-07-B24

16.55

Diwedd y Cyfarfod

Cofnodion heb eu

Cadarnhau

Teitl y cyfarfod:	Cyfarfod Bwrdd CNC – Sesiwn Gyhoeddus Y rhai a oedd yn bresennol yn y cnauld yng Ngardd Fotaneg Genedlaethol Cymru, Sir Gâr, a thrwy Microsoft Teams
Dyddiad y cyfarfod:	26 Mai 2022
Aelodau'r Bwrdd a oedd yn Bresennol:	Syr David Henshaw (Cadeirydd) Clare Pillman, Prif Weithredwr Yr Athro Steve Ormerod, Dirprwy Gadeirydd (9:30-9:45 a 11:30 tan ddiwedd y cyfarfod) Karen Balmer Catherine Brown Julia Cherrett Geraint Davies Zoë Henderson Yr Athro Calvin Jones Mark McKenna Dr Rosie Plummer Yr Athro Peter Rigby
Aelodau o'r Tîm Gweithredol a oedd yn bresennol:	Jacqui Kedward, Pennaeth Archwilio Mewnol (dirprwyo ar ran Rachael Cunningham, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol) Ceri Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu (9:30-9:45 ac 11:30 tan ddiwedd y cyfarfod) Prys Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Datblygu Corfforaethol Sarah Jennings, Cyfarwyddwr Gweithredol Cwsmeriaid, Cyfathrebu a Masnachol Gareth O'Shea, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau
Unigolion Ychwanegol a oedd yn Bresennol:	Clare Jones, Cynghorydd Arbenigol Arweiniol, Llywodraethu - Eitem 6 (Teams) Victoria Painter, Rheolwr Llywodraethu a Risg - Eitem 6 (Teams) Miriam Jones-Walters, Cynghorydd Arbenigol, Stiwardiaeth Tir - Eitem 7 Andrew Wright, Uwch Gynghorydd Arbenigol, Iechyd Planhigion a Throsglwyddo Gwybodaeth Ymchwil, Stiwardiaeth Tir - Eitem 7 (Teams) Ruth Jenkins, Pennaeth Rheoli Adnoddau Naturiol - Eitem 7 (Teams) Dominic Driver, Pennaeth Stiwardiaeth Tir - Eitem 7 (Teams) Elsie Grace; Pennaeth Datblygu Masnachol Cynaliadwy - Eitem 7 (Teams) Jeremy Parr, Pennaeth Rheoli Perygl Llifogydd a Digwyddiadau - Eitem 8 (yn y cnauld) Charlotte Morgan, Rheolwr Lles, Iechyd a Diogelwch - Eitem 9 (Teams)

Sylwedyddion CNC: Martyn P Evans, Pennaeth Gweithrediadau, De-orllewin Cymru
Kate Evans, Materion Cyhoeddus ac Ysgrifennydd Personol
Ben Dickinson, Rheolwr Newid Gwasanaeth a Ffurfweddiad
Sarah Williams, Pennaeth Strategaeth Gorfforaethol a Swyddfa Rheoli Rhaglenni
Annie Payne, Cynorthwydd i Bennaeth DPAS
Jack Tucker, Cymorth Gweinyddol a Chynorthwydd Personol Kickstart - Eitem 8 (i gyd drwy Teams)
Wyn Davies, Rheolwr, Rheoli Perygl Llifogydd a Digwyddiadau
Mark Pugh, Prif Gynghorydd, Grŵp Dadansoddi Perygl Llifogydd
Ross Akers, Rheolwr, Cynllunio Strategol a Buddsoddi mewn Perygl Llifogydd
Andrew Wall, Rheolwr, Gwasanaethau Perygl Llifogydd Cenedlaethol
Keith Ivens, Rheolwr Gweithrediadau, Rheoli Llifogydd a Dŵr
Tim England, Rheolwr Gweithrediadau, Rheoli Llifogydd a Dŵr
Dafydd Sidgwick, Cynghorydd Arbenigol Arweiniol, Cynllunio Strategol a Buddsoddi
Mike Evans, Pennaeth Gweithrediadau, Canol De Cymru
Lynette Bowley, Uwch Gynghorydd Arbenigol, y Cyfryngau

Sylwedyddion Cyhoeddus: Kim Waters – Undeb Afonydd Cymru
Steve Griffiths – Cymdeithas Saethu a Chadwraeth Prydain (BASC)
David Bean – Y Gynghrair Cefn Gwlad
Gareth Wardell
Nick Day
Susan Brown
Aelodau eraill o'r cyhoedd

Datganiadau: Yr Athro Steve Ormerod – Is-lywydd yr RSPB, Prifysgol Caerdydd, Cydbwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC)
Geraint Davies – Game & Wildlife Conservation Trust, RSPB, Undeb Amaethwyr Cymru, Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol; Tirfeddiannwr sydd â diddordeb yn y Rhaglen Adfer Mawndiroedd
Julia Cherrett – Cymdeithas Saethu a Chadwraeth Prydain
Karen Balmer – RSPB
Zoe Henderson – Y Gynghrair Cefn Gwlad, Game & Wildlife Conservation Trust
Yr Athro Calvin Jones – Aelod o'r Skyline Management Committee, Gweithiwr ym Mhrifysgol Caerdydd
Sarah Jennings – Ymddiriedolwr Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru

Ymddiheuriadau: Paul Griffiths
Rachael Cunningham, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol
Colette Fletcher, Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd
Yr Athro Steve Ormerod (9:45 tan 11:30)
Ceri Davies (9:45 tan 11:30)

Ysgrifenyddiaeth: Jocelyn Benger
Natalie Williams
Rhiannon Spencer

Eitem 1. Agor y Cyfarfod

1. Agorodd y Cadeirydd y Cyfarfod a chrosawu pawb. Gwnaed datganiadau o fuddiant ac ymddiheuriadau fel y nodwyd uchod.

Eitem 2. Adolygu'r Cofnodion a'r Cofnod Camau Gweithredu

2A. Adolygu Cofnodion Cyfarfod Cyhoeddus 24 Mawrth

2. Adolygwyd cofnodion cyfarfod mis Mawrth, a chytunwyd arnynt yn amodol ar wneud mân addasiad.

2B. Adolygu'r Cofnod Camau Gweithredu Cyhoeddus

3. Adolygwyd y cofnod gweithredu. Gofynnodd aelodau'r Bwrdd pam nad oedd unrhyw gamau'n deillio o'r eitem Diogelwch Coedwigaeth yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Mawrth. Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau yr wybodaeth ddiweddaraf am waith parhaus ar y mater hwn. Cynhaliwyd cyfarfod dilynol gyda chyrff coedwigaeth eraill o bob rhan o'r DU a oedd â diddordeb yn null gweithredu CNC, ac roedd CNC wedi cael gwahoddiad i siarad yn un o ddigwyddiadau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE). Croesawyd y gwaith o ddatblygu camau gweithredu y gallai'r Bwrdd eu cefnogi, a byddai hyn yn rhan o'r camau nesaf.

CAM GWEITHREDU: Camau gweithredu o ganlyniad i'r gwaith parhaus ar Ddiogelwch Coedwigaeth i'w hadrodd i'r Bwrdd mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.

4. Ystyriwyd materion yn codi a gofynnodd aelodau'r Bwrdd am yr wybodaeth ddiweddaraf am Benodiadau Cyfnod Penodol (FTA). Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Datblygu Corfforaethol yr wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith sy'n mynd rhagddo yn y maes hwn. Roedd papur wedi'i gyflwyno i'r Tîm Gweithredol (ET) ar gynigion i newid y dull o ymdrin â phenodiadau FTA, a fyddai'n creu cronfa dalent hyblyg, yn rheoli materion cadw ac yn lleihau'r ddibyniaeth ar swyddi FTA. Byddai arbenigedd allanol yn cael ei geisio ar y ffordd orau o reoli'r dull er mwyn sicrhau tegwch yn y tymor hwy. Disgrifiwyd y camau nesaf.

Eitem 3: Diweddariad gan y Cadeirydd

5. Rhoddwyd yr wybodaeth ddiweddaraf am drafodaethau parhaus gyda'r Gweinidog, yn enwedig ar yr agenda ansawdd dŵr. Roedd gwaith yn mynd rhagddo gyda Chadeiryddion Ofwat a'r cwmnïau dŵr i symud hyn ymlaen i grŵp rhanddeiliaid ehangach o dan arweinyddiaeth y Gweinidog a'r Prif Weiniog, gan fynd â hyn y tu hwnt i faterion gyda Gorlif Stormydd Cyfunol (CSOs). Byddai'r rhaglen ar gyfer camau gweithredu mewn perthynas â CSOs ar gael o fewn yr wythnosau nesaf ac roedd eisoes yn cael ei gweithredu. Roedd Ofwat a'r cwmnïau dŵr wedi cytuno i ddwyn gwariant cyfalaf ymlaen fel y bo'n briodol.
6. Bu'r digwyddiad diweddar yn y Senedd yn llwyddiannus ac roedd y cyfarfod rhanddeiliaid a gynhaliwyd ar y noson flaenorol wedi bod yn werthfawr iawn. Tynnwyd sylw at y symudiad allan o gyfyngiadau Covid a phwysigrwydd ailymgysylltu â rhanddeiliaid.
7. Roedd cyfarfodydd wedi'u cynnal gyda Gweinidogion ar Adferiad Gwyrdd a CNC.

Eitem 4: Adroddiad gan y Prif Weithredwr

8. Ystyriwyd bod y papur wedi'i ddarllen, a thynnwyd sylw at yr eitemau canlynol.
9. Roedd y digwyddiad diweddar yn y Senedd wedi bod yn gadarnhaol iawn, gyda phresenoldeb da.
10. Roedd aelodau staff yn arbrofi gyda gwahanol ffyrdd o weithio ac roedd timau'n dod at ei gilydd. Roedd ymweliadau safle'r Bwrdd wedi tynnu sylw at bwysigrwydd staff yn cysylltu yn y cnawd. Roedd y rhaglen Adfywio ar waith, gyda swyddfeydd yn dechrau agor, ac roedd y rheolau'n cael eu hadolygu.
11. Roedd rhaglen o ddigwyddiadau'n cael ei chynnal a fyddai'n hwyluso ailymgysylltu yn y cnawd. Roedd enghreifftiau'n cynnwys y Sioe Fawr, yr Eisteddfod, amryw o ddigwyddiadau i randdeiliaid, cyfarfod y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) a Chynhadledd yr International Environmental Protection Agencies (EPA) ym Mharis.
12. Hwn oedd cyfarfod cyntaf y flwyddyn ariannol newydd. Byddai cyfarfod y Bwrdd ym mis Gorffennaf yn ystyried yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon. Tynnwyd sylw at y gwaith o ddod â'r gyllideb o fewn 0.4% i'r targed. Bu cynnydd da o ran y mesurau perfformiad a byddai manylion yn cael eu darparu yn y cyfarfod nesaf.
13. Roedd CNC wedi bod yn gweithio'n agos gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) i gyflwyno Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth i feithrin y cysylltiadau ag awdurdodau lleol. Cynhaliwyd etholiadau Llywodraeth Leol Cymru yn ystod y cyfnod diwethaf a byddai'n bwysig ymgysylltu â'r cynghorau newydd. Disgrifiwyd y newidiadau ar lefel cyngor. Roedd arweinwyr yn cael eu cyhoeddi, a fyddai'n cyfrannu at CLILC.
14. Ystyriodd aelodau'r Bwrdd gynnwys yr adroddiad. Croesawyd rôl CNC o ran cydgysylltu prosiect Natur am Byth a gofynnwyd am adroddiad ar gynnydd ar gyfer cyfarfod yn y dyfodol. Cytunwyd y dylid darparu diweddariad ar Natur am Byth a phrosiectau LIFE mewn cyfarfod yn y dyfodol.

CAM GWEITHREDU: Yr Ysgrifenyddiaeth i ychwanegu diweddariad ar brosiectau LIFE a Natur am Byth i'r Rhagolwg ar gyfer cyfarfod Bwrdd yn y dyfodol.

15. Estynnodd aelodau'r Bwrdd longyfarchiadau i'r tîm ar y gweithgarwch gorfodi llwyddiannus a chydabu'r ymdrech gyfunol sy'n gysylltiedig â hyn. Argymhellwyd y dylid cadw golwg ar yr ymdrech a'r costau llawn sy'n gysylltiedig â'r gwaith hwn. Tynnwyd sylw at effaith gweithgarwch gorfodi llwyddiannus.
16. Pwysleisiwyd pwysigrwydd gorfodi a monitro hyn ym maes ansawdd dŵr. Nodwyd bod hyn wedi'i godi mewn cyfarfodydd blaenorol a gofynnwyd i hyn gael ei gynnwys yn y broses adrodd reolaidd. Cydnabuwyd pryderon y cyhoedd ar y mater hwn ac awgrymwyd y gallai'r adroddiad fod wedi cynnwys rhagor o fanylion am y dull o ymdrin â'r risgiau a'r dibyniaethau a diagram rhaeadr o'r cynllun gweithredu, a fyddai'n galluogi CNC i fod yn fwy atebol a thryloyw. Oherwydd pwysigrwydd y mater ansawdd dŵr, cytunwyd y byddai'n bwysig cynnwys hyn fel eitem reolaidd mewn cyfarfodydd yn y dyfodol. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr y byddai'n cael ei gynnwys fel mesur adrodd yn y Dangosfwrdd Perfformiad a rhoddodd yr wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith sy'n cael ei wneud yn fewnol ar y trefniadau sy'n ofynnol ar y mater hwn a chyda Llywodraeth Cymru ar y cyd-destun ehangach. Byddai'r wybodaeth ddiweddaraf am ansawdd dŵr yn cael ei rhoi i'r cyfarfod nesaf o ran llywodraethu, y camau gweithredu a'r amserlen.

CAM GWEITHREDU: Yr wybodaeth ddiweddaraf am ansawdd dŵr i'w darparu i gyfarfod nesaf y Bwrdd gan ganolbwyntio ar lywodraethu, y camau gweithredu a'r amserlen.

17. Nododd aelodau'r Bwrdd ymddeoliad Bob Vaughan, Rheolwr Tir Cynaliadwy, a gofynnwyd am i'w diolch a'u dymuniadau gorau gael eu mynegi iddo. Tynnwyd sylw at bwysigrwydd sbarduno newid amaethyddol mewn perthynas â'r amgylchedd ond cydnabuwyd y byddai'n anodd dod o hyd i rywun â'r un set benodol o sgiliau a gwybodaeth. Argymhellodd y Prif Weithredwr y dylid darparu adroddiad ar y dull o greu gwydnwch o fewn y tîm i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Pobl a Thaliadau. Nodwyd bod trafodaethau'n mynd rhagddynt gyda Llywodraeth Cymru ar gyllid ar gyfer gorfodi'r rheoliadau amaethyddol.

Eitem 5: Adroddiadau Diweddarau'r Pwyllgorau

18. Cyflwynodd Catherine Brown, Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC), yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am y gwaith sydd wedi digwydd ers y cyfarfod diwethaf ar 10 Mawrth. Roedd y gwaith o gefnogi'r tîm i gynhyrchu'r cyfrifon terfynol yn parhau.

19. Cyflwynodd yr Athro Peter Rigby, Cadeirydd y Pwyllgor Cynghori ar Dystiolaeth (EAC), yr wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith ers y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Ionawr. Byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 7 Mehefin, a hynny yn y cnawd am y tro cyntaf. Roedd recriwtio i'r Pwyllgor wedi bod yn digwydd i gynyddu'r gwydnwch a'r arbenigedd, ac roedd y pwyllgor EAC yn falch iawn o groesawu Dr Tom Nisbet o Forest Research a'r Athro Melanie Austen o Brifysgol Plymouth a fyddai'n dod ag arbenigedd mewn hydroleg coedwigoedd a'r môr yn y drefn honno.

20. Rhoddodd Syr David Henshaw, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid (FC), yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 14 a 28 Ebrill. Roedd y prif eitemau wedi'u cynnwys yn y papur. Byddai'r cyfarfod nesaf yn parhau â'r trafodaethau gwerth am arian ac eitemau'r dangosfwrdd perfformiad a godwyd yn sesiwn breifat y Bwrdd.

21. Rhoddodd Julia Cherrett, yn dirprwyo ar ran Cadeirydd y Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd (FRMC), yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 7 Ebrill. Roedd y manylion wedi'u cynnwys yn y papur. Tynnwyd sylw at y ffaith bod y Rhaglen Weithredu ar gyfer Adolygu ac Adfer yn dilyn Llifogydd (FRRIP) wedi'i graddio'n Oren, gyda 32 o'r 51 o gamau gweithredu wedi'u cyflawni ar gyfer eleni, er y nodwyd nad oedd y rhai nad oeddent wedi'u cyflawni yn rhan o'r camau gweithredu hanfodol. Nid oedd gwariant cyfalaf ar gronfeydd dŵr wedi'i drafod a byddai hyn yn cael ei adolygu yng nghyfarfod nesaf yr FRMC. Rhoddodd y Prif Weithredwr wybodaeth i'r Bwrdd am sesiwn ymgysylltu dda a gynhaliwyd gyda thua 180 o aelodau staff er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am y cynnydd a wnaed o ran y camau gweithredu ar yr FRRIP. Nodwyd bod cefnogaeth dda wedi bod i'r rotas, sef un o argymhellion yr FRRIP.

22. Rhoddodd Julia Cherrett, Cadeirydd y Pwyllgor Pobl a Thaliadau (PaRC), yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am y gwaith ers y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 2 Mawrth. Roedd agenda'r cyfarfod nesaf ar 24 Mehefin yn cael ei pharatoi a byddai'n cynnwys eitemau ar y canlynol: Lles, Iechyd a Diogelwch, gan gynnwys y gwaith dilynol ar Ddiogelwch Coedwigaeth; recriwtio a swyddi gwag; adolygiad o Adfywio a Sgwrs; cynllunio ar gyfer olyniaeth a chynllunio'r gweithlu, gan gyfeirio at argymhellion yr archwiliad; dyfarniadau cyflog; archwiliad dwfn o lefelau absenoldeb. Byddai trafodaeth ar benodiadau FTA yn cael ei chynnwys yn yr adran ar niferoedd staff. Y gobaith oedd y byddai'r Pennaeth Datblygu Sefydliadol newydd yn ei swydd ac yn gallu ymuno â'r cyfarfod.

23. Rhoddodd Dr Rosie Plummer, Cadeirydd y Pwyllgor Ardaloedd Gwarchoddedig (PrAC), yr wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith ers y cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Chwefror. Darparwyd diweddiad ar y Rhaglen Tirweddau Dynodedig Integredig mewn perthynas

â'r parc cenedlaethol newydd posibl. Roedd gwaith cyn cychwyn wedi'i gwblhau, gan gynnwys cysylltu â'r awdurdodau lleol perthnasol, a chafwyd cadarnhad o'r cyllid gan Lywodraeth Cymru ar hyn. Gan fod y Bwrdd wedi cytuno'n flaenorol y dylai'r broses barhau, roedd PrAC bellach yn ystyried hyn ar ran y Bwrdd ar gyfer y parc cenedlaethol posibl. Y cam nesaf fyddai dechrau'r broses gyffredinol o ddynodi'r dirwedd, a fyddai'n symud i'r cam casglu tystiolaeth. Darparwyd diweddariad ar Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA). Roedd tri SoDdGA newydd wedi'u cadarnhau heb unrhyw wrthwynebiadau. Byddai cyfarfod nesaf y PrAC yn canolbwyntio ar y Rhaglen Tirweddau Dynodedig Integredig, y targed '30erbyn30', perfformiad 2021 ar ddarparu a monitro safleoedd gwarchoddedig, y rhaglen Mawndiroedd a rhwydweithiau Ardaloedd Morol Gwarchoddedig.

24. Nodwyd y byddai'r papur Diweddariad Cyllid yn cael ei gyhoeddi a'i drafod yn y dyfodol fel rhan o'r cyfarfod cyhoeddus. Cytunwyd y byddai'r perfformiad cyllid ar gyfer diwedd y flwyddyn fel y'i nodwyd yn y sesiwn breifat yn cael ei gynnwys fel rhan o bapurau'r Bwrdd ym mis Gorffennaf.

CAM GWEITHREDU: Adroddiad Cyllid i'w gyhoeddi gyda phapurau cyhoeddus y Bwrdd ym mis Gorffennaf.

Eitem 6: Newidiadau arfaethedig i'r Cynllun Statudol a Chyfreithiol (SaLS)

Cyflwynwyr: Clare Jones, Cynghorydd Arbenigol Arweiniol, Llywodraethu; Victoria Painter, Rheolwr Llywodraethu a Risg

25. Rhoddodd y Cynghorydd Arbenigol Arweiniol, Llywodraethu, drosolwg byr o gynnwys y papur.

26. Bu'r Bwrdd yn ystyried y newidiadau arfaethedig i'r SaLS ar gyfer y Bwrdd Busnes Rheoleiddiol a derbyniwyd y newidiadau.

WEDI'I GYMERADWYO: Newidiadau i'r SaLS ar gyfer y Bwrdd Busnes Rheoleiddiol

Eitem 7: Strategaeth Goedwigaeth

Cyflwynwyr: Ruth Jenkins, Pennaeth Polisi Rheoli Adnoddau Naturiol; Miriam Jones-Walters, Cynghorydd Arbenigol, Stiwardiaeth Tir; Andrew Wright, Uwch Gynghorydd Arbenigol, Iechyd Planhigion a Throsglwyddo Gwybodaeth Ymchwil, Stiwardiaeth Tir; Dominic Driver, Pennaeth Stiwardiaeth Tir; Elsie Grace, Pennaeth Datblygu Masnachol Cynaliadwy

27. Fel cyd-noddwr yr eitem, rhoddodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu, Cwsmeriaid a Masnachol gyflwyniad ac amlinelliad byr o'r dull arfaethedig o ymdrin â'r trafodaethau.

28. Esboniodd y Pennaeth Stiwardiaeth Tir fod tair eitem i'w hystyried yng ngoleuni themâu cyffredinol integreiddio, pragmatiaeth a phendantrwydd sensitif. Roedd angen dod o hyd i ateb pragmatig i ddyletswydd statudol CNC, felly cynigiwyd Pwyllgor Cynghori Rhanbarthol (RAC) ar gyfer coedwigaeth. Roedd yr ymweliad safle ddoe wedi bod yn dda ac roedd y trafodaethau ynglŷn â'r dull pragmatig o blannu cydadferol wedi bod yn ddefnyddiol. Byddai'r camau nesaf sy'n deillio o'r drafodaeth strategol ym mis Mawrth yn cael eu hystyried, a byddai'r drafodaeth honno'n cael ei datblygu ymhellach, gan ganolbwyntio ar y Cytundeb Lefel Gwasanaeth (CLG) gyda Llywodraeth Cymru, cyn symud i mewn i'r Cynllun Corfforaethol ac, yn olaf, diben a rôl dogfen Ystâd Goed Llywodraeth Cymru. Yr amserlen ar gyfer y dull hwn fyddai tua dwy flynedd. Roedd y Prif Weithredwr a'r Cadeirydd wedi bod mewn trafodaethau ynglŷn â'r dull o lywodraethu er mwyn sicrhau bod gan y Bwrdd yr oruchwyliaeth a'r mewnbwn cywir.

29. Rhoddodd y Pennaeth Polisi Rheoli Adnoddau Naturiol drosolwg o'r papur a oedd yn cynnig sefydlu RAC coedwigaeth ac yn nodi'r gofynion cyfreithiol a statudol i CNC fod â RAC. Cynigiwyd y byddai'r pwyllgor hwn yn cael ei ychwanegu at Fforwm Rheoli Tir Cymru (WLMF) a'i sefydlu mewn ffordd a fyddai'n integreiddio â'r pwyllgor ac yn cynrychioli'r ystod o fuddiannau sydd wedi'u cynnwys yn y Ddeddf Coedwigaeth. Byddai hyn yn digwydd ledled Cymru ac yn adlewyrchu manteision economaidd rheoli mewn ffordd gynaliadwy. Esboniwyd mai un o'r rhesymau dros orfod mynd i'r afael â hyn nawr oedd bod Panel Cynghori Strategaeth Coetiroedd Llywodraeth Cymru yn cael ei ddiddymu a'i ddisodli gan strwythurau llywodraethu coedwigaeth newydd.
30. Trafododd aelodau'r Bwrdd y cynnig ar gyfer RAC coedwigaeth. Cytunwyd nad oedd yr enw 'Pwyllgor Cynghori Rhanbarthol' yn dangos y diben yn glir. Awgrymwyd y gallai 'Pwyllgor Cynghori Cymru' fod yn fwy priodol. Cadarnhaodd Pennaeth y Polisi Rheoli Adnoddau Naturiol y gallai fod gan y pwyllgor deitl gwaith gwahanol.
31. Byddai angen integreiddio Cylch Gorchwyl yr WLMF a'r RAC a sicrhau ei bod yn hawdd dod o hyd iddo ar y wefan. Argymhellwyd na ddylai hyn ychwanegu at faich yr ysgrifenyddiaeth ond y byddai angen ei gwmpasu'n effeithiol. Awgrymwyd y gallai fod angen denu pobl o dros y ffin er mwyn sicrhau diogelwch aelodaeth. Trafodwyd aelodaeth y pwyllgor. Byddai'n bwysig sicrhau cydbwysedd aelodaeth i gwmpasu'r ystod o fuddiannau.
32. Mynegodd aelodau'r Bwrdd bryderon bod strwythurau newydd yn cael eu sefydlu o dan Ddeddf Coedwigaeth 1967, na fyddai felly'n cynnwys ystyriaethau'n deillio o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol na Deddf yr Amgylchedd. Argymhellwyd y dylai gael ei wirio i sicrhau nad oedd unrhyw wrthdaro â hyn a bod hyn yn cael ei gynrychioli. Nodwyd y byddai angen i Lywodraeth Cymru edrych ar y Ddeddf Goedwigaeth gyfan a'r ardal amaethyddol ehangach o fewn y tair i bum mlynedd nesaf ond, gan fod y rhaglen ddeddfwriaethol yn llawn iawn, roedd angen mabwysiadu ymagwedd bragmatig ar hyn o bryd.
33. Cadarnhaodd Zoe Henderson, Cadeirydd WLMF, ei chefnogaeth i'r cynnig ac argymhellodd y dylid rhoi gwybod i'r Bwrdd yn rheolaidd am diweddariadau yn unol â diweddariadau is-bwyllgorau eraill y Bwrdd.
34. Cytunodd y Bwrdd i ffurfio RAC coedwigaeth sy'n gysylltiedig ag WLMF, yn amodol ar eglurhad o'r aelodaeth a'r cylch gorchwyl, diweddariadau rheolaidd i'r Bwrdd ac enw diwygiedig.

CAM GWEITHREDU: Yr Ysgrifenyddiaeth i ychwanegu diweddariadau o WLMF at adran Diweddariadau Is-bwyllgorau'r Bwrdd ar agendâu'r Bwrdd.

WEDI'I GYMERADWYO: Ffurio RAC coedwigaeth sy'n gysylltiedig ag WLMF sy'n bodoli'n barod yn unol â gofynion y Ddeddf Coedwigaeth, yn amodol ar eglurhad o'r aelodaeth a'r cylch gorchwyl, diweddariadau rheolaidd i'r Bwrdd ac enw diwygiedig.

35. Rhoddodd y Cynghorydd Arbenigol, Stiwardiaeth Tir, drosolwg o'r gymeradwyaeth Adran 83 arfaethedig sydd i'w gymeradwyo gan y Bwrdd. Yn 2020, rhoddodd Llywodraeth Cymru gymeradwyaeth Adran 83 i CNC gaffael 350 hectar o dir ar gyfer plannu cydadferol yn lle coetiroedd a gollwyd yn barhaol i ddatblygiadau ynni adnewyddadwy. Roedd chwe safle wedi'u caffael, a dangoswyd y gallai CNC wneud y gwaith a chyflawni amrywiaeth o fuddion SMNR wrth weithio ac ymgysylltu â rhanddeiliaid. Roedd y gymeradwyaeth honno ar fin cael ei chwblhau ac amcangyfrifwyd y byddai 260 hectar yn cael ei golli yn y dyfodol agos, felly cynigiwyd y gymeradwyaeth Adran 83 arfaethedig er

mwyn lliniaru'r golled hon. Tynnwyd sylw at y ffaith mai cyfran fach o'r tir a ddaeth i'r farchnad yng Nghymru oedd hon.

36. Diolchodd y Bwrdd i'r tîm am yr ymweliad â safle creu coetir Brownhill ddoe, a oedd yn ddefnyddiol ac yn llawn gwybodaeth.
37. Nododd aelodau'r Bwrdd rai o'r anawsterau a gododd o'r iaith a ddefnyddiwyd, a oedd yn awgrymu bod y dull yn cyfeirio at 'fwy o goed' yn unig. Awgrymwyd mai dull rheoli tir cyfan oedd hwn a gofynnwyd a ellid newid y naratif ar y set nesaf o gaffael tir i adlewyrchu hyn a phwysleisio'r gwaith ar dir i fynd i'r afael â'r gallu i wrthsefyll y newid yn yr hinsawdd, gwelliannau bioamrywiaeth a manteision hamdden. Fodd bynnag, byddai'n bwysig sicrhau nad oedd y diben yn mynd yn rhy eang ac yn cael ei wanedu.
38. Tynnwyd sylw at y ffaith bod llawer o uchelgais ar gyfer ardal fach a gofynnwyd a ddylid gwneud mwy. Cydnabuwyd bod cydbwysedd rhwng pryderon y cyhoedd a'r argyfwng natur ac, yn hytrach na newid yr iaith, byddai'n bwysig bod yn dryloyw, yn atebol a dangos bod pryderon wedi'u clywed a bod ymateb wedi'i ddarparu.
39. Gofynnwyd ynghylch y dull o ymdrin â'r tir ar ddiwedd y brydles. Cadarnhaodd y Pennaeth Datblygu Masnachol Cynaliadwy y byddai disgwyl i ddatblygwyr gael gwared ar y seilwaith ac adfer y tir. Fodd bynnag, roedd yn bosibl i ddatblygwyr geisio estyniadau i'w prydles a fyddai wedyn yn dod yn drafodaeth fasnachol.
40. Nododd y Bwrdd y pryderon a godwyd gan aelodau'r cyhoedd cyn y cyfarfod ar y math o dir a brynwyd ar gyfer creu coetir.
41. Codwyd pryderon gan aelodau'r Bwrdd ynghylch newid defnydd tir o ffermio i'r mathau hyn o gynlluniau plannu cydadferol. Pwysleisiwyd mai cydweithio â ffermwyr i ddatblygu cynlluniau ar ffermydd presennol fyddai'r ffordd orau ymlaen. Awgrymwyd na ddylid symud y tu hwnt i blannu cydadferol ond y dylid rhoi cefnogaeth i gymunedau gyflawni hyn, a fyddai felly'n helpu i ddiogelu'r Gymraeg a threftadaeth a diwylliant Cymru.
42. Trafododd aelodau'r Bwrdd y dull o ymdrin â defnydd tir a thynnwyd sylw at y ffaith y byddai angen datblygu gweledigaeth glir ar gyfer amrywio'r defnydd o dir ac y gallai hyn helpu i wella dealltwriaeth y cyhoedd. Trafodwyd y broses o wneud penderfyniadau ar y dull rheoli tir. Cydnabuwyd bod hyn yn rhan o ddarn ehangach yn hytrach na'r plannu cydadferol a oedd yn ganolbwynt i'r papur. Cydnabuwyd bod llywodraethu mewn perthynas â'r mater hwn yn gam nesaf pwysig ac y byddai'n cael ei ystyried fel rhan o adran nesaf yr eitem.
43. Cytunodd y Bwrdd i gymeradwyo'r cytundeb Adran 83 yn gofyn am brynu 260 hectar arall erbyn diwedd 2025/26, yn amodol ar drafodaethau parhaus ar y dull o ymdrin â defnydd tir a phryniadau a sefydlu llywodraethu ar y mater hwn.

PENDERFYNIAD: Cymeradwyo cytundeb Adran 83 yn gofyn am brynu 260 hectar arall erbyn diwedd 2025/26, yn amodol ar drafodaethau parhaus ar y dull o ymdrin â defnydd tir a phryniadau a sefydlu llywodraethu ar y mater hwn.

44. Rhoddodd yr Uwch Gyngorydd Arbenigol, Iechyd Planhigion a Throsoglwyddo Gwybodaeth Ymchwil, Stiwardiaeth Tir, drosolwg o'r papur a ddilynodd y drafodaeth strategol yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Mawrth ar Ystâd Goed Llywodraeth Cymru. Roedd y materion a godwyd yn cynnwys newidiadau mewn pwysau amgylcheddol, a goruchwyllo a llywodraethu. Roedd dull aml-flwyddyn yn cael ei ddatblygu a fyddai'n cynnwys CLG newydd a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas ag Ystâd Goed Llywodraeth Cymru. Byddai cwmpas y CLG yn aml-flwyddyn, gan gwmpasu cyfnod

y Senedd, ac yn ddeinamig ac yn hyblyg, gan gynnwys adolygiad blynyddol. Y bwriad oedd ehangu'r CLG i gynnwys Ystâd CNC yn ei chyfanrwydd a chynnwys cyswllt â gweithgareddau masnachol ac incwm pren. Byddai angen cyfres o ddangosyddion i adolygu'r tueddiadau, a gellid ystyried gwreiddio'r dull plannu cydadferol hefyd. Ni fyddai capasiti i gynnal yr adolygiad cyfan ar yr un pryd, felly cynigiwyd y dylid canolbwyntio ar y CLG i sefydlu'r cyllid a chyflawni ymrwymiad cyllidebol hirdymor, gydag opsiynau ar gyfer cynnwys y gwasanaeth yn hyn o beth. Byddai hyn wedyn yn bwydo i mewn i'r Cynllun Corfforaethol newydd, ac yna'r ddogfen Diben a Rôl yn 2023-24.

45. Ystyriodd aelodau'r Bwrdd gynnwys yr adroddiad. Mynegwyd pryderon ynghylch y pwysau ar yr amserlen ar gyfer y CLG a'r materion yn ymwneud â gorchudd coed a drafodwyd. Byddai manteision o edrych yn gyfannol ar orchudd tir a Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol (NNRs) ond roedd pryderon y gallai'r CLG arwain at glymu materion cyn mynd i'r afael â'r materion hyn. Roedd pryderon hefyd ynghylch cytuno ar CLG cyn y Cynllun Corfforaethol newydd, a oedd â'r potensial i fod yn drawsnewidiol. Roedd perygl na fyddai'r CLG yn cyflawni mewn perthynas â'r argyfyngau hinsawdd a natur.
46. Cadarnhaodd y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr fod trafodaethau wedi'u cynnal ar greu is-bwyllgor Bwrdd a fyddai'n ystyried yr holl dir a reolir gan CNC, gan gynnwys Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol. Byddai'n bwysig ystyried a sefydlu'r aelodaeth a dechrau symud ymlaen ar hyn. Byddai angen bod yn bragmatig o ran datblygu'r CLG, a oedd yn rhan bwysig o'r trafodaethau Sylfaenol gyda Llywodraeth Cymru ac eitem o ffocws gwleidyddol.
47. Roedd y Bwrdd yn cefnogi'r cynnig i ddatblygu is-bwyllgor Bwrdd newydd ac yn cydnabod ei bwysigrwydd o ran gwneud rhywfaint o'r gwaith caled yn y dull o ymdrin â defnydd tir. Byddai'n bwysig meddwl am bethau'n wahanol a mabwysiadu dull pendant o fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur wrth weithio gyda chymunedau. Cytunwyd y dylai'r gwaith ar y CLG barhau.

CAM GWEITHREDU: Y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr i ddatblygu'r trefniadau llywodraethu o ran y dull o ymdrin â thir a reolir gan CNC ar is-bwyllgor newydd y Bwrdd.

Eitem 8: Trafodaeth Strategol ar Reoli Perygl Llifogydd

Cyflwynydd: Jeremy Parr, Pennaeth Rheoli Perygl Llifogydd a Digwyddiadau

48. Cyflwynodd Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu (EPP) yr eitem a oedd wedi dwyn ynghyd y themâu a ddeilliodd o'r drafodaeth strategol yn yr FRMC. Byddai trafodaethau manylach yn dilyn yn yr FRMC ond roedd hwn yn bwynt allweddol gyda'r Cynllun Corfforaethol sy'n datblygu, trafodaethau CLG ac edrych ar strategaethau a pholisïau gyda Llywodraeth Cymru. Byddai cynrychiolwyr Llywodraeth Cymru yn ymuno â chyfarfod nesaf yr FRMC i barhau â'r trafodaethau.
49. Croesawodd Julia Cherrett, a oedd yn dirprwyo ar ran Cadeirydd yr FRMC, ychwanegu aelodau newydd i'r FRMC a'r her yr oeddent wedi'i chyflwyno i archwilio syniadau newydd. Roedd y drafodaeth strategol yng nghyfarfod diweddar yr FRMC wedi dod i'r casgliad nad oedd atebion hawdd a bod llawer i'w archwilio o hyd, gan gynnwys gwaith partneriaeth.
50. Rhoddodd y Pennaeth Rheoli Perygl Llifogydd a Digwyddiadau gyflwyniad i osod y cyd-destun ar gyfer y drafodaeth. Rhannwyd nifer yr eiddo a oedd mewn perygl o lifogydd yng Nghymru ac roedd hyn yn debygol o gynyddu 34% erbyn 2120. Roedd disgwyl i hyn gynnwys cynnydd mawr oherwydd llifogydd arfordirol. Gosodwyd y cyd-destun o fewn yr argyfyngau hinsawdd a natur a chyflawni mewn perthynas â'r rhain. Roedd yn bwysig nodi nad oedd un ateb unigol i lifogydd. Byddai angen canolbwyntio ar yr agenda

integredig ar gyfer cynllunio dalgylchoedd a gwydnwch cymunedol. Rhannwyd enghreifftiau o ymyriadau Rheoli Llifogydd yn Naturiol a thynnwyd sylw at y ffaith y gellid gweld y mapiau sy'n dangos hyn ar wefan CNC. Byddai'r drafodaeth hon yn canolbwyntio ar y continwmm, a'r hyn y gellid ei wneud wrth symud ymlaen, yn enwedig pe bai mwy o arian gan Lywodraeth Cymru ar gael.

51. Trafododd aelodau'r Bwrdd yr eitem ac ystyriodd yr opsiynau a gyflwynwyd yn y papur. Gyda'r cyllid ychwanegol, nodwyd y gallai fod lle i wneud mwy ar wydnwch. Roedd cyfle pwysig gyda'r Cynllun Corfforaethol newydd i feddwl yn wahanol ac ystyried beth ddylai lefel yr uchelgais fod. Am resymau deddfwriaethol ac ymarferol, cydnabuwyd y dylai'r gwaith a oedd yn cael ei wneud barhau, ond roedd hefyd yn bwysig ystyried yr hyn y gellid ei wella neu ei wneud yn wahanol. Roedd cyfle i ddatblygu sylfaen dystiolaeth dda a phrawf o gysyniad ar gyfer y gwaith wrth symud ymlaen a cheisio creu newid trawsnewidiol.
52. Nododd aelodau'r FRMC ei bod yn heriol i'r pwyllgor ddylanwadu ar y rhaglen waith sydd ar y gweill ac adrodd ar y broses o wneud penderfyniadau. Trafodwyd hyn yn fanwl yng nghyfarfod diwethaf yr FRMC ac roedd gwaith yn mynd rhagddo ar y mater hwn.
53. Yn dilyn yr adroddiadau o lifogydd Storm Dennis, awgrymwyd y dylid parhau i ddatblygu momentwm cyfathrebu â'r cyhoedd yng Nghymru a'i ddatblygu ymhellach. Gallai'r cyfleoedd i agor y sgysiau ddilyn y gwaith ar ddalgylch Taf, a nodwyd fel enghraifft fyw a heriol. Byddai'r adolygiad gan yr Athro Elwen Evans o'r Adroddiadau Adran 19 ac Adolygiad Llifogydd CNC a'r adolygiad o seilwaith llifogydd gan y Comisiynydd Seilwaith hefyd yn helpu i lywio'r trafodaethau o fewn CNC a chydag eraill.
54. Tynnwyd sylw at y ffaith bod manteision posibl o Gynlluniau Rheoli Llifogydd yn Naturiol ar gyfer ymdrin â materion ansawdd dŵr, yn ogystal â maint. Byddai hyn yn cynnwys cymysgedd o ddefnyddiau tir, felly byddai angen ystyried y cymhellion a'r ysgogiadau. Trafodwyd pwysigrwydd gweithio gyda phartneriaid i sicrhau dull integredig o ymdrin ag ansawdd dŵr a maint. Cydnabuwyd bod y rhain yn faterion anodd ac emosiynol, a bod angen cynnal sgysiau anodd. Roedd gwaith yn cael ei wneud drwy CLILC ynghylch sgysiau ar ymaddasu.
55. Trafodwyd yr opsiynau yn y papur. Awgrymwyd mai opsiwn rywle rhwng c) a d) fyddai'r ffordd ymlaen gan y byddai'n bwysig parhau â'r gwaith wrth adolygu dewisiadau amgen a gweithio mewn ffordd integredig yn hytrach na defnyddio dull seilo. Byddai angen ystyried gwerth am arian a sut beth fyddai hynny. Byddai angen i sgysiau barhau gyda Llywodraeth Cymru. Byddai angen ymagwedd bragmatig a gallai fod angen cydnabod na fyddai'n bosibl parhau â phopeth a oedd wedi'i wneud o'r blaen.
56. Archwiliwyd dulliau posibl o ymdrin â'r materion. Awgrymwyd y byddai rheoliadau adeiladu a chynllunio cryfach yn bwysig, yn enwedig ar ddatblygiadau mewn ardaloedd sy'n agored i lifogydd. Fodd bynnag, nodwyd yr heriau presennol sy'n gysylltiedig â Nodyn Cyngor Technegol 15 (TAN15). Gellid ystyried arloesi ac enghreifftiau o arferion gorau ar lefel genedlaethol a rhyngwladol. Roedd potensial i gyfathrebu ynghylch y Cynllun Corfforaethol newydd, Coedwigaeth a Llifogydd gael eu datblygu fel un sgwrs fawr yng Nghymru ar y themâu hyn. Nodwyd heriau o ran adnoddau, a'r ffaith y byddai angen blaenoriaethu.
57. Gellid datblygu fframwaith ar gyfer sgwrs genedlaethol, gyda chomisiwn yn cael ei sefydlu i alluogi hyn i ddigwydd ledled Cymru. Byddai rôl oruchwylio strategol CNC yn bwysig o ran rhoi cyngor i Lywodraeth Cymru wrth bwysleisio'r angen am sgwrs genedlaethol. Byddai'n bwysig cynnwys y ffigurau i'w hystyried gan y cyhoedd a gofynion a senarios buddsoddi hirdymor. Byddai hefyd angen ystyried yr offer presennol ar gyfer

democratiaeth a gwneud penderfyniadau a oedd yn cynnwys sylfaen dystiolaeth a gyflwynwyd mewn ffordd hygyrch i hwyluso trafodaeth am werthoedd a blaenoriaethau.

58. Diolchwyd i'r tîm Rheoli Perygl Llifogydd.

Eitem 9: Adroddiad Blynyddol Lles, Iechyd a Diogelwch 2021-22

Cyflwynydd: Charlotte Morgan, Rheolwr Lles, Iechyd a Diogelwch

59. Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Datblygiad Corfforaethol Adroddiad Blynyddol Lles, Iechyd a Diogelwch 2021-22. Roedd yr Adroddiad Blynyddol yn dangos y cynnydd a wnaed mewn amryw o feysydd, gan gynnwys sicrhau achrediad ISO 45001, i gefnogi'r agenda Lles, Iechyd a Diogelwch, gan gynnwys sicrhau bod uwch arweinwyr strategol ar draws y sefydliad. Roedd yr arweinyddiaeth strategol hon yn cynnwys ymgysylltu â'r Bwrdd ar Les, Iechyd a Diogelwch, megis y drafodaeth ddiweddar ar ddiogelwch coedwigaeth ac ymgysylltu â buddiannau sectoraidd ehangach. Y nod oedd parhau â'r ffocws hwnnw dros y flwyddyn i ddod.
60. Tynnodd y Rheolwr Lles, Iechyd a Diogelwch sylw at feysydd allweddol yn yr adroddiad. Roedd agwedd gadarnhaol a phroffesiynoldeb y tîm wedi helpu i gyflawni'r cofrestrriad ISO 45001 i reoli safon iechyd a diogelwch galwedigaethol. Bu cynnydd yn nifer yr achosion o gofnodi digwyddiadau yn dilyn codi cyfyngiadau Covid a chynnydd cadarnhaol yn nifer yr adroddiadau o ddamweiniau fu bron â digwydd. Roedd perthynas waith a phartneriaeth gydweithredol gadarnhaol wedi'u sefydlu gyda'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) a'r Comisiwn Coedwigaeth.
61. Ystyriodd aelodau'r Bwrdd gynnwys yr adroddiad. Awgrymwyd y dylid cynnwys rôl yr hyrwyddwyr iechyd meddwl, ynghyd â gwybodaeth am eu heffaith. Cadarnhaodd y Rheolwr Lles, Iechyd a Diogelwch fod dros 90 o hyrwyddwyr iechyd meddwl staff yn cyfarfod yn fisol a bod mentrau wedi'u rhoi ar waith yn dilyn cynnwys y trafodaethau hyn.
62. Croesawyd y gwelliannau o ran adroddiadau ar ddigwyddiadau a damweiniau fu bron â digwydd. Cydnabuwyd rôl y porth ar-lein AssessNET wrth gasglu tueddiadau data a'r gwersi a ddysgwyd o adroddiadau ar ddigwyddiadau a damweiniau fu bron â digwydd. Roedd adroddiad monitro gweithredol ar y rhain wedi'i gynnwys yn yr wybodaeth a gynhyrchwyd. Byddai hyn yn cael ei drafod yn y Fforymau Lles, Iechyd a Diogelwch nesaf a byddai dadansoddiad yn cael ei ystyried yng nghyfarfod nesaf y PaRC.
63. Trafodwyd y digwyddiadau difrifol yn ymwneud â contractwyr. Gofynnwyd a oedd y prosesau caffael yn ddigonol i sicrhau cymhwysedd contractwyr. Cadarnhaodd y Rheolwr Lles, Iechyd a Diogelwch fod gweithdrefn a pholisi ar waith i sicrhau bod rhaid i bob contractwr basio asesiad holiadur cyn-gymhwyso Lles, Iechyd a Diogelwch a oedd yn cynnwys asesu'r gwaith o fonitro eu his-gontractwyr. Cadarnhawyd bod cymorth ac arweiniad yn cael eu cynnig i gontractwyr yn ôl yr angen, ond na fyddent yn cael eu cynnwys ar y fframwaith pe baent yn methu'r asesiad.
64. Trafodwyd pwysigrwydd Lles, Iechyd a Diogelwch y cyhoedd i Ystâd CNC, yn enwedig mewn perthynas â beicio mynydd. Cadarnhaodd y Rheolwr Lles, Iechyd a Diogelwch fod CNC yn rhan o Arena Asesu Risg Diogelwch y Cyhoedd a oedd yn edrych ar egwyddorion y Grŵp Diogelwch Ymwelwyr a bod proses ar waith i sicrhau bod arwyddion diogelwch y cyhoedd yn cael eu hasesu'n briodol.
65. Gofynnwyd a ellid cynnwys y gwelliannau Lles a'r effaith gadarnhaol a gynigir gan Ystâd CNC yn yr Adroddiad Lles, Iechyd a Diogelwch, yn ogystal â'r materion ffisiolegol. Cadarnhawyd bod amryw o astudiaethau wedi'u cynnal ar fanteision Lles yr Ystâd a byddai'n bwysig cynnwys y rhain mewn adroddiadau yn y dyfodol.

CAM GWEITHREDU: Y Rheolwr Lles, Iechyd a Diogelwch i ychwanegu gwybodaeth am effaith Ystâd CNC ar les i'r rhestr o eitemau i'w cynnwys ar Adroddiadau Lles, Iechyd a Diogelwch yn y dyfodol.

66. Trafodwyd yr arolwg staff. Byddai hyn yn cael ei anfon at y staff yn yr hydref. Nodwyd y gallai fod yn anodd cymharu'r canlyniadau ar gyfer ymatebion cyn ac ar ôl y pandemig oherwydd newid yn y dull o ymdrin â'r arolwg.

67. Cymeradwyodd y Bwrdd Adroddiad Blynyddol Lles, Iechyd a Diogelwch 2021-22 a diolchwyd i'r Rheolwr Lles, Iechyd a Diogelwch a'i thîm.

WEDI'I GYMERADWYO: Adroddiad Blynyddol Lles, Iechyd a Diogelwch 2021-22

Eitem 10. Rhagolwg y Bwrdd

Cyflwynydd: Natalie Williams, Arweinydd Tîm, Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd

68. Nodwyd y Rhagolwg ar gyfer y cyfarfod ym mis Gorffennaf. Cynigiwyd y byddai'r cyfarfod yn cael ei gynnal dros un diwrnod. Yna byddai sesiwn ar wahân ar y Cynllun Corfforaethol.

Eitem 11: UNRHYW FATER ARALL

69. Diolchodd y Cadeirydd i bawb a gymerodd ran yn yr ymweliad safle amser cinio, oedd yn llawn gwybodaeth.

70. Dywedodd y Cadeirydd wrth y Bwrdd fod yr Athro Calvin Jones wedi cytuno i gadeirio is-bwyllgor newydd y Bwrdd ar y dull o ymdrin â defnydd tir.

71. Cytunwyd ar y newidiadau i'r SaLS ar gyfer Bwrdd Busnes y Gwasanaethau Corfforaethol drwy ohebiaeth.

WEDI'I GYMERADWYO: Newidiadau i'r SaLS ar gyfer Bwrdd Busnes y Gwasanaethau Corfforaethol

72. Cymeradwyodd y Bwrdd Ddatganiad Caethwasiaeth Fodern CNC 2022-23.

WEDI'I GYMERADWYO: Datganiad Caethwasiaeth Fodern CNC 2022-23

- Daeth cyfarfod y Bwrdd i ben -

Eitem 12. Sesiwn holi ac ateb gyhoeddus

73. Croesawodd y Cadeirydd aelodau'r cyhoedd ac esboniodd sut fyddai'r sesiwn yn cael ei chynnal. Gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau gan y cyhoedd.

74. Gofynnodd aelodau'r cyhoedd gwestiynau i'r Bwrdd a darparwyd ymatebion.

- Daeth y Cyfarfod Cyhoeddus i ben -

Cyfarfodydd Bwrdd										
Cam Gweithredu Rhif.	Categori Cyfarfod	Dyddiad y Cyfarfod	Rhif yr Eitem	Rhif y Paragraff	Noddwr y Papur	Cam Gweithredu	Perchennog	Dyddiad	Statws	Nodiadau/Diweddariadau
2	Cyhoeddus	26/11/2020	6	20	Prys Davies, Cyfarwyddwr Strategaeth a Datblygu Corfforaethol	CAM GWEITHREDU: Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau i siarad gyda Phennaeth Gweithrediadau Gogledd-ddwyrain Cymru am gynnal trafodaeth gyda'r Bwrdd yn y dyfodol ar y terfyn 4 awr ar gyfer ymateb i achosion.	Gareth O'Shea, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau'r De	23/06/2022	Parhaus	Ychwanegwyd at y rhestr o eitemau trafod strategol posibl, cyflwyniadau lleoedd, sesiynau tystiolaeth ac ymweliadau â safleoedd. Awgrymu mai hon yw'r eitem drafod strategol ar gyfer cyfarfod y Bwrdd ym mis Medi a'n bod yn gohirio'r thema ar drafodaethau strategol blaenorol i wneud lle i'r eitem hon. Wedi'i ychwanegu at y Rhagolwg ar gyfer mis Tachwedd. I'w ystyried fel rhan o'r eitem ar themâu trawsbynciol Cyflwyno Lleoedd, symudwyd i gyfarfod y Bwrdd mis Gorffennaf 2022
3	Cyhoeddus	24/03/2021	4	10	Clare Pillman Prif Swyddog	CAM GWEITHREDU: Yr Ysgrifenyddiaeth i holi am argaeledd ar gyfer Diwrnod Datblygu'r Bwrdd ym mis Gorffennaf yn canolbwyntio ar fyfyrion a heriau'r dyfodol ar ôl Covid.	Yr Ysgrifenyddiaeth	07/07/2022	Parhaus	Mae'r Cadeirydd wedi cadarnhau y bydd Diwrnodau Datblygu'r Bwrdd yn cael eu gohirio hyd nes bod modd cynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb. Dyddiad addas yn 2022 i'w gadarnhau.
25	Cyhoeddus	24/03/2022	11	58	Sarah Jennings Cyfarwyddwr Gweithredol Cwsmeriaid, Cyfathrebu a Gwybodaeth	CAM GWEITHREDU: Datblygu cynllun cychwynnol i ddatblygu'r Strategaeth Ddigidol a'i gyflwyno i gyfarfod o'r Bwrdd yn y dyfodol.	Catrin Hornung, Pennaeth Cyfathrebu a Chysylltiadau Cwsmeriaid	01/09/2022	Parhaus	Wedi'i gynnwys ar agenda'r Bwrdd ym mis Medi
36	Cyhoeddus	26/05/2022	2B	3	Syr David Henshaw	CAM GWEITHREDU: Camau gweithredu sy'n deillio o'r gwaith parhaus ar Ddiogelwch Coedwigaeth i'w hadrodd i'r Bwrdd mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.	Gareth O'Shea, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau	23/06/2022	Parhaus	
37	Cyhoeddus	26/05/2022	4	13	Clare Pillman Prif Swyddog Gweithredol	CAM GWEITHREDU: Yr Ysgrifenyddiaeth i ychwanegu diweddariad ar brosiectau LIFE a Natur am Byth i'r Rhagolwg ar gyfer cyfarfod o'r Bwrdd yn y dyfodol.	Ysgrifenyddiaeth	17/06/2022	Cwblhawyd	Diweddariad ar Brosiectau LIFE wedi'i ychwanegu at Rhagolwg y Bwrdd ar gyfer mis Tachwedd. Prosiect Natur am Byth wedi'i gynnwys yn Rhagolwg y Bwrdd ar gyfer mis Ionawr.
38	Cyhoeddus	26/05/2022	4	15	Clare Pillman Prif Swyddog Gweithredol	CAM GWEITHREDU: Diweddariad ar ansawdd dŵr i'w ddarparu i gyfarfod nesaf y Bwrdd gan ganolbwyntio ar lywodraethu, camau gweithredu ac amserlen.	Sian Williams, Pennaeth Gweithrediadau Gogledd Orllewin Cymru	23/06/2022	Cwblhawyd	I'w gynnwys yn Agenda mis Gorffennaf
39	Cyhoeddus	26/05/2022	5	23	Syr David Henshaw	CAM GWEITHREDU: Adroddiad Cyllid i'w gyhoeddi gyda phapurau'r Bwrdd cyhoeddus ym mis Gorffennaf.	Rob Bell, Pennaeth Cyllid / Yr Ysgrifenyddiaeth	23/06/2022	Cwblhawyd	I'w gynnwys yn Agenda mis Gorffennaf
40	Cyhoeddus	26/05/2022	7	33	Ceri Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu; Sarah Jennings Cyfarwyddwr Gweithredol Cwsmeriaid, Cyfathrebu a Gwybodaeth	CAM GWEITHREDU: Yr Ysgrifenyddiaeth i ychwanegu diweddariadau o'r WLMF at adran Diweddariadau Is-bwyllgorau'r Bwrdd yn agendâu'r Bwrdd.	Yr Ysgrifenyddiaeth	23/06/2022	Cwblhawyd	

41	Cyhoeddus	26/05/2022	7	46	Ceri Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu; Sarah Jennings Cyfarwyddwr Gweithredol Cwsmeriaid, Cyfathrebu a Gwybodaeth	CAM GWEITHREDU: Y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr i ddatblygu'r trefniadau llywodraethu ar gyfer is-bwyllgor newydd y Bwrdd yn ymwneud â'r dull o ymdrin â thir a reolir gan CNC.	Cadeirydd a Phrif Swyddog Gweithredol	30/09/2022	Parhaus	Y Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd i ddatblygu Cylch Gorchwyl ar gyfer y pwyllgor newydd. Y Cadeirydd i drafod aelodaeth ehangach y pwyllgor gyda'r Athro Calvin Jones.
42	Cyhoeddus	26/05/2022	9	64	Prys Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Datblygu Corfforaethol	CAM GWEITHREDU: Rheolwr Lles, Iechyd a Diogelwch i ychwanegu gwybodaeth am effaith Ystad CNC ar les i'r rhestr o eitemau i'w cynnwys mewn Adroddiadau Lles, Iechyd a Diogelwch yn y dyfodol.	Charlotte Morgan, Rheolwr Lles, Iechyd a Diogelwch	01/09/2022	Parhaus	

Papur Bwrdd

	Manylion y papur
Teitl y papur:	Adroddiad gan y Prif Swyddog Gweithredol
Cyfeirnod y papur:	22-07-B07
Noddir y papur gan:	Clare Pillman, Prif Weithredwr
Cyflwynir y papur gan:	Clare Pillman, Prif Weithredwr
Diben y papur	Gwybodaeth/Trafodaeth

Cyflwyniad

Recriwtio Uwch-staff

1. Pleser yw dweud bod Sarah-Ellen Stacey wedi'i phenodi bellach yn Bennaeth Datblygu Sefydliadol, a bod Victoria Rose-Piper wedi'i phenodi'n Bennaeth Gwasanaethau Cymorth Busnes ac Adfywio. Mae'r ddwy wedi cyflawni'r rolau hyn dros dro, ond maent wedi cael cadarnhad yn awr y byddant yn aros yn barhaol yn eu rolau. Bydd y ddwy rôl hyn yn hollbwysig o ran cyflwyno'r newid trawsnewidiol y dymunwn ei weld wrth inni edrych tuag at ein Cynllun Corfforaethol nesaf. Bydd y cyfweiliadau ar gyfer rôl y Pennaeth TGCh yn cael eu cynnal ar 6 Gorffennaf.

Ymgysylltu Allanol

2. Mae ymgysylltu wyneb yn wyneb yn parhau i gynyddu wrth i fwy a mwy o gyfarfodydd 'yn y cnawd' gael eu trefnu. Yn ystod gwyliau'r Sulgwyn cefais flas ar gymryd rhan yng Ngŵyl y Gelli, lle bu Darren Moorcroft (Prif Swyddog Gweithredol Coed Cadw) a minnau yn ymateb i gwestiwn arbennig – sef ai coed yw'r ffordd o ddatrys newid hinsawdd. Ym mis Mehefin, cymerais ran mewn trafodaeth banel dan gadeiryddiaeth Amber Rudd yn y Gynhadledd Da Byw yng Ngogledd Cymru, lle'r aethpwyd ati i archwilio dyfodol ffermio yng Nghymru, ochr yn ochr â Llŷr Gruffydd AS, Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith yn y Senedd, Teresa Dent o'r Ymddiriedolaeth Cadwraeth Helwriaeth a Bywyd Gwyllt, Patrick Holden o'r

Ymddiriedolaeth Bwyd Cynaliadwy, Sam Rowlands AS, a James Owen, Cyfarwyddwr Diwygio Maes Rheoli Tir yn Llywodraeth Cymru.

3. Hefyd, cymerais ran mewn cyfarfodydd gyda nifer o randdeiliaid allweddol, yn cynnwys David Clubb, Cadeirydd y Comisiwn Seilwaith; y Cynghorydd Andrew Morgan, Arweinydd Cyngor Rhondda Cynon Taf; Chris Llewelyn o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru; a Dr Nerys Llewelyn Jones, Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru.

Cyfathrebu a Materion Digidol

4. Yn ystod mis Mai a mis Mehefin, manteisiodd y tîm cyfathrebu ar y cyfle i dynnu sylw at y gwaith a wnawn i ymdrin â'r dirywiad mewn bioamrywiaeth a'r argyfyngau ehangach sy'n ymwneud â natur a'r hinsawdd. Ar Ddiwrnod Amgylchedd y Byd, aethom ati i arddangos gwaith y Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar Fawndiroedd ynghyd â phrosiectau eraill sy'n cynnig atebion seiliedig ar natur, megis Grangetown Gwyrddach a phrosiect Adfer Cynefinoedd Pen y Cymoedd.
5. Ymhellach, rhoddodd Diwrnod Cefnforoedd y Byd gyfle inni dynnu sylw at y gwaith a wnawn ledled y rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchoddedig a'n hymgyrch recriwtio barhaus yn y maes. Hefyd, dathlodd rhaglen LIFE yr Undeb Ewropeaidd ei phen-blwydd yn 30 oed yn ystod mis Mai, ac aethom ati i weithio gyda'n partneriaid i ail-fyw a rhannu llwyddiannau'r prosiectau LIFE niferus a gyflwynwyd yng Nghymru yn ystod y cyfnod hwn.
6. Mae'r calendr ar gyfer digwyddiadau'r haf bellach ar waith. Mynychodd CNC ddigwyddiad Glaswelltiroedd Cymdeithas y Sioe Frenhinol, gan ddefnyddio'r cyfle i gyfarfod â'r gymuned amaethyddol a'n partneriaid. Rydym yn gweithio gyda thimau ledled Cymru i gynnig cyngor a hyrwyddo sesiynau ymgysylltu wyneb yn wyneb â'r cyhoedd ar gyfer nifer o ymgynghoriadau a phrosiectau.
7. Yn ystod gwyliau'r hanner tymor a phenwythnosau gŵyl y banc, aethom ati i gyflwyno negeseuon yn ymwneud â hamddena cyfrifol, y Cod Cefn Gwlad a llwybrau cerdded a beicio hygyrch ar ein safleoedd. A chan fod yna fwy o achosion o algâu gwyrddlas ac algâu tymhorol, a mwy o adroddiadau amdanynt, rydym wedi defnyddio dull rhagweithiol o gyfathrebu'n allanol er mwyn tynnu sylw at y gwahaniaethau rhwng llygredd a sylweddau naturiol.
8. Y tu ôl i'r llenni, buom yn gweithio'n agos gyda thîm cyfathrebu Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru i reoli negeseuon ynglŷn â chyhoeddi bod prydles reoli Hafod wedi newid dwylo.
9. Drwy gydol mis Mai a mis Mehefin, fe wnaethom barhau i gyfathrebu ynglŷn â'n gweithgareddau gorfodi. Rhoddwyd cryn dipyn o sylw ar y cyfryngau rhanbarthol a chenedlaethol i nifer o ganlyniadau blaenllaw yn y llysoedd a hefyd i'r sancsiynau a osodwyd am amrywiaeth o weithgareddau, yn cynnwys troseddau gwastraff, hel cocos yn anghyfreithlon a phanio am aur. Ymhellach, mae ein cydweithwyr wedi cyfrannu at

nifer o eitemau ar y cyfryngau yn ymwneud â phynciau fel gwaddol mwyngloddiau metel ac ansawdd dŵr.

Materion Strategol

Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (SoNaRR) – Adborth gan ddefnyddwyr a chynllunio ar gyfer SoNaRR2025

10. Mae pedwar mis ar ddeg wedi mynd heibio ers cyhoeddi cynnyrch terfynol SoNaRR2020. Rydym wedi gwrandao ar adborth ynglŷn â'r tudalennau gwe ac rydym wedi cyflwyno rhai newidiadau er mwyn helpu pobl i lywio trwyddynt. Mae angen gwneud mwy i helpu'r defnyddwyr i ddod o hyd i'r hyn maent yn chwilio amdano. Rydym wrthi'n ychwanegu astudiaethau achos perthnasol er mwyn dangos arferion gorau o ran rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Hefyd, rydym wedi cyhoeddi animeiddiad ar wefan CNC er mwyn esbonio prif negeseuon SoNaRR.
11. Mae SoNaRR2025 yn brosiect a ddaw o dan adain y Swyddfa Rheoli Rhaglenni, ac rydym yn defnyddio'r gwersi a ddysgwyd a'r wybodaeth a gasglwyd gan ddefnyddwyr i ddechrau cynllunio'r adroddiad nesaf. Y bwriad yw cyhoeddi'r adroddiad hwnnw ym mis Rhagfyr 2025.
12. Yn dilyn gweithdy ar-lein a gynhaliwyd ar 16 Mai 2022 gyda staff Polisi Llywodraeth Cymru, byddwn yn mynd ati i addasu'r modd y cyflwynir gwybodaeth er mwyn sicrhau y bydd yn fwy ystyrlon i'r defnyddwyr. Ar sail ein trafodaethau gyda'r swyddogion, ymddengys y byddai'n well cael naratif byrrach, crynodebau'n ymwneud â sectorau penodol, a'r gallu i dreiddio i'r dystiolaeth fanwl. Hefyd, cefnogir y syniad o ddatblygu fframwaith canlyniadau a dangosyddion ar gyfer Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy (SMNR). Disgwylir y bydd hyn yn arwain at bennu dangosyddion SMNR y gellir eu cynnwys mewn adroddiadau SoNaRR yn y dyfodol. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â'r defnyddwyr wrth inni gynllunio prosiect SoNaRR2025 a chytuno ar ddull yr asesiad nesaf.

EDF yn tynnu ei gais yn ôl am drwydded forol ar gyfer gweithgareddau carthu/gwaredu

13. Ar 10 Mai, tynnodd EDF NNB GenCo (HPC) ei gais yn ôl am drwydded forol (DML2110) i waredu gwaddodion a garthwyd yn sgil gwaith cyfalaf a gwaith cynnal a chadw o flaendraeth datblygiad Hinkley Point C ar safle gwaredu Bastiroedd Caerdydd. O'r herwydd, mae'r mater hwn wedi dod i ben i CNC o ran trwyddedu morol.
14. Yn ddiweddar, cafodd Adolygiad Barnwrol o benderfyniad y Sefydliad Rheoli Morol (MMO) ynghylch amrywio trwydded forol EDF NNB GenCo (HPC) Ltd (a oedd yn caniatáu gwaredu'r un deunyddiau ar safle gwaredu morol wrth ymyl Portishead) ei wrthod yn ei gyfanrwydd gan y Llysoedd.

15. Mae EDF wedi cadarnhau bod y gwaith carthu/gwaredu a aildechreuodd ar safle Portishead (Dyfroedd Lloegr) ym mis Ebrill yn mynd rhagddo'n dda.

16. Rydym wedi rhoi gwybod i swyddogion Llywodraeth Cymru am benderfyniad EDF, ac mae'r swyddogion yn eu tro wedi rhoi gwybod i'r Gweinidog. Ymhellach, mae holl Aelodau'r Senedd a rhai Arweinwyr Awdurdodau Lleol wedi cael diweddariad ysgrifenedig gan Mike Evans, Pennaeth Gweithrediadau Canol De Cymru.

Adolygiad 'O'r Dechrau i'r Diwedd' gan Lywodraeth Cymru o Drwyddedu Morol

17. Yn dilyn archwiliad dwfn Llywodraeth Cymru i faterion morol, comisiynwyd yr adolygiad er mwyn pennu cyfleoedd i wella a symleiddio'r broses drwyddedu, gan sicrhau ar yr un pryd y bydd y gofynion statudol yn cael eu cynnal ac y bydd ardal forol Cymru yn cael ei datblygu mewn modd cynaliadwy. Er mwyn cyflawni'r amcan hwn, bydd angen ymgysylltu'n eang â rhanddeiliaid er mwyn inni allu ystyried safbwyntiau'r holl ddefnyddwyr a datblygu sylfaen dystiolaeth.

18. Bydd yr adolygiad yn ystyried gwaith a wneir eisoes mewn partneriaeth â'r Grŵp Strategol Cynghori ar Ganiatadau ar gyfer ynni adnewyddadwy morol (sef grŵp rhanddeiliaid a grëwyd gan Lywodraeth Cymru) a'i Is-grŵp Cynghori ar Wyddoniaeth a Thystiolaeth, a hynny er mwyn gwella'r broses trwyddedu morol fel y bydd modd cynorthwyo datblygiadau ynni adnewyddadwy newydd a chymhleth. Y tu allan i'r cwmpas: esemptiadau ar gyfer trwyddedau morol; apeliadau; gorfodi trwyddedau morol.

19. Caiff yr Adolygiad 'O'r Dechrau i'r Diwedd' ei hollti'n bum cam, gyda phob cam yn para mis. Cam 1 yr adolygiad oedd rhoi'r prosiect ar waith (Ebrill 2022). Ar hyn o bryd, rydym wedi cyrraedd Cam 2 (Mai 2022) ac rydym yn dechrau cyfrannu at Gam 3 o ran dewis pa astudiaethau achos y dylid eu harfarnu'n fanwl. Yn ystod Cam 4 byddwn yn cyfathrebu'r canfyddiadau cychwynol ac yn ystod Cam 5 byddwn yn cyhoeddi argymhellion yr Adolygiad. Y disgwyl yw y bydd yr Adolygiad yn rhoi adroddiad i Lywodraeth Cymru a CNC ddiwedd mis Medi.

Y Rhaglen Tirweddau Dynodedig a Pharc Cenedlaethol posibl

20. Mae'r holl waith cyn-gychwyn wedi'i gwblhau, yn cynnwys llunio canllawiau ar brosesau dynodi tirweddau, gwaith cwmpasu cychwynol ar gyfer yr ardal o dan sylw, trafodaethau gydag awdurdodau lleol perthnasol, a chadarnhau cyllid gan Lywodraeth Cymru. Roedd y Bwrdd wedi cytuno eisoes mewn egwyddor y dylid parhau â'r broses ar ôl i'r camau hyn gael eu cwblhau / cadarnhau. Erbyn hyn, mae'r Pwyllgor Ardaloedd Gwarchoddedig (PrAC) wedi cytuno ar ran y Bwrdd beth fydd cam nesaf y gwaith mewn perthynas â'r Parc Cenedlaethol, sef cadarnhau y dylid dechrau ar y broses ddynodi gyffredinol. Bydd hyn yn tywys CNC at y cam casglu tystiolaeth, yn cynnwys cynnal

asesiad er mwyn gweld a yw ardal yng Ngogledd Ddwyrain Cymru yn gymwys i'w dynodi'n Barc Cenedlaethol newydd.

21. Bydd canlyniadau'r camau asesu yn cael eu dwyn gerbron y Bwrdd i'w hystyried, a bydd penderfyniad yn cael ei wneud ynghylch a ddylid dechrau ar y broses ddynodi statudol a chynnal ymgynghoriad cyhoeddus.

Niwclear – Asesiad Cynllun Generig

22. Mae CNC a'i bartneriaid wedi cychwyn y cyfarfod 'swyddogol' cyntaf gyda Rolls-Royce i drafod cais y cwmni i gynnal Asesiad Cynllun Generig (GDA). Os caiff ei gymeradwyo, bydd yn rhoi hyder i reoleiddwyr y DU (sef y Swyddfa Reoleiddio Niwclear (ONR), Asiantaeth yr Amgylchedd a CNC) y bydd unrhyw orsaf ynni niwclear newydd a adeiladir ym Mhrydain Fawr yn cyrraedd safonau uchel o ran:

- diogelwch
- diogeled
- gwarchod yr amgylchedd
- rheoli gwastraff.

23. Os caiff ei gymeradwyo, bydd modd rhoi'r cynllun ar waith yn y DU. Mae'r rheoleiddwyr yn cynnal Asesiad Cynllun Generig cyn i orsafoedd ynni ddechrau cael eu hadeiladu. Golyga hyn y gallwn ddod o hyd i broblemau rheoleiddio posibl o ran y cynllun neu'r dechnoleg yn gynnar yn y broses a gofyn i gynllunydd yr adweithydd eu datrys. Yn naturiol, mae'r broses yn eithaf maith a gall gymryd oddeutu pedair blynedd i'w chwblhau.

24. Mae gan y tîm Polisi Ymbelydredd a Diwydiant ran lawn yn y broses, ac mae gennym gytundeb codi tâl ar gyfer y gwaith a wnawn. Rydym wedi cynnal rhag-gyfarfodydd gyda'r Swyddfa Reoleiddio Niwclear ac Asiantaeth yr Amgylchedd ac rydym wedi cyfarfod â'r cwmni a gyflwynodd y cais (sef Rolls Royce) er mwyn bwrw ymlaen â'r cais hwnnw. Mae ein tîm polisi yn meithrin ei wytnwch ac mae gan CNC rôl weithredol yn y broses. Mae cwmni Rolls Royce wedi datgan yn gyhoeddus bod ganddo ddiddordeb mewn defnyddio'i dechnoleg ar safle'r Wylfa. Mae'r amserlenni ar gyfer y gwaith adeiladu yn uchelgeisiol, ac os cymeradwyir y cynllun a'r drwydded efallai y gwelwn ynni niwclear yng Nghymru cyn 2030.

Gweithio gydag Awdurdod Cyllid Cymru

25. Mae Awdurdod Cyllid Cymru wedi dirprwyo'i swyddogaethau i CNC o dan ddarpariaethau'r Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi, i'r graddau y maent yn ymwneud â'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi. Mae hyn yn cyd-fynd â'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Awdurdod Cyllid Cymru a CNC ynghylch trefniadau gweithio, yn cynnwys ariannu Tîm Treth Gwarediadau Tirlenwi CNC yn llwyr.

26. Er mwyn i Fwrdd Awdurdod Cyllid Cymru allu cymeradwyo cyfrifon CNC, mae'n ofynnol i CNC gyflwyno datganiad blynyddol i Awdurdod Cyllid Cymru er mwyn rhoi sicrwydd y bydd yn gallu cyflawni ar sail y dyletswyddau dirprwyedig a nodir yn y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth. Mae'r Prif Weithredwr wedi anfon llythyr ar gyfer y cyfnod sy'n ymestyn o 1 Ebrill 2021 hyd at 31 Mawrth 2022 – mae'r llythyr hwn yn cadarnhau'r trefniadau parhaus ar gyfer CNC fel y'u nodir yn y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth, gan gadarnhau hefyd ein bod wedi bodloni'r holl Ddangosyddion Perfformiad Allweddol ar ddiwedd y flwyddyn.
27. Gwelir bod y trefniadau gweithio rhwng y ddau sefydliad mewn perthynas â'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi wedi gweithio'n dda drwy gydol cyfnod y pandemig, a'u bod yn parhau i weithio'n dda. Dyma arwydd o broffesiynoldeb ac ymroddiad ein staff, a gellir ei ystyried fel esiampl y dylai eraill ei dilyn. Wrth symud ymlaen i flwyddyn 2022/2023, byddwn yn diwygio'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol presennol er mwyn adlewyrchu'r cynnydd a wnaed hyd yn hyn o ran trethi gwarediadau tirlenwi anawdurdodedig a'n ffocws cynyddol ar ymdrin â chamddisgrifio gwastraff y bwriedir ei anfon i safleoedd tirlenwi. Bydd Awdurdod Cyllid Cymru yn rhyddhau ei Strategaeth Gorfforaethol ddiwygiedig ar gyfer 2022-2025, lle tynnir sylw at weithio mewn partneriaeth â CNC.

Adolygu Diogelwch Coedwigaeth

28. Rydym yn bwrw ymlaen â champau gweithredu a ddeilliodd o drafodaeth a gafwyd yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Mawrth 2022, sef trafodaeth yn ymwneud ag Adolygu Diogelwch Coedwigaeth. Caiff y camau hyn eu nodi o fewn Risg 2 Stiwardiaeth Tir: Methu â sicrhau bod pawb yn cyrraedd adref yn ddiogel bob diwrnod o Ystad CNC, gyda throsolwg trwy gyfrwng Risg Strategol 3, Iechyd a Diogelwch Staff CNC, Contractwyr CNC, Ymwelwyr a Thenantiaid CNC.
29. Yn ystod Cyfarfod Cyfarwyddwyr Coedwigaeth y DU a gynhaliwyd yn ddiweddar, buom yn trafod gweithio ar y cyd ledled sectorau coedwigaeth y wladwriaeth, ac mae Dominic Driver wedi ysgrifennu erthygl ar gyfer cylchgrawn "Trees" yr ICF (Sefydliad y Coedwigwyr Siartredig) yn sôn am y casgliadau a ddeilliodd o drafodaeth y Bwrdd.

Materion Gweithredol

Dyffryn Pengwern

30. Fel rhan o'n gwaith ar Ddatganiad Ardal y Gogledd Ddwyrain, rydym wedi bod yn gweithio gydag Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy dros y flwyddyn ddiwethaf i ymgysylltu â rhanddeiliaid a grwpiau cymunedol yn Nyffryn Pengwern ger Llangollen. Yr uchelgais yw creu gweledigaeth ynglŷn â sut mae modd i'r gymuned sicrhau y gall wrthsefyll ein hinsawdd newidiol yn well, ynghyd â lliniaru'r argyfwng hinsawdd a'r argyfwng natur. Rydym wedi creu delweddau o'r newidiadau y dymuna'r gymuned eu gweld yn y tymor canolig i'r tymor hir. Yn ystod yr

haf, byddwn yn cynnal sesiynau galw heibio ar gyfer trigolion yr ardal fel y gallant fwrw golwg dros y posteri sy'n arddangos y weledigaeth hon a rhoi adborth inni. Yna, byddwn yn helpu'r gymuned i greu prosiectau unigol a cheisio cyllid ar eu cyfer.

Ymgynghoriad Cyhoeddus Kronospan ynghylch trwydded gyfunol

31. Rydym wedi cwblhau ein proses benderfynu a chyfuno mewn perthynas â thrwyddedau presennol safle Kronospan (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam a CNC), yn dilyn Cyfarwyddyd Llywodraeth Cymru yn 2018. Cyn cwblhau ein penderfyniad, roedd gennym ddyletswydd i sicrhau bod yr holl weithgareddau presennol yn cael eu hasesu'n drylwyr a'u bod yn cydymffurfio â'r Technegau Gorau Sydd ar Gael. Mae'r drwydded gyfunol yn cynnig llinell sylfaen gyfreithiol gadarn i CNC o ran ysgwyddo'r holl waith rheoleiddio amgylcheddol ar y safle.
32. Mae ein staff Gweithrediadau a Thrwyddedu wedi bod wrthi'n sicrhau bod grwpiau cymunedol lleol, Kronospan, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam a gwleidyddion yn cael gwybod y diweddaraf am y cynnydd hyd yn hyn. Ddydd Iau 16 Mehefin, rhoddyd ymgynghoriad cyhoeddus ar waith. Bydd yr ymgynghoriad hwn yn para pedair wythnos a bydd yn dod i ben ddydd Sul 17 Gorffennaf. Mae'r safle o ddiddordeb mawr i'r cyhoedd, ac felly disgwyliwn y bydd yna ddiddordeb mawr yn y digwyddiad hollbwysig hwn wrth i CNC baratoi i gymryd yr awenau oddi ar Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ac ysgwyddo cyfrifoldeb llwyr dros reoleiddio'r safle. Aethpwyd ati i lunio Cynllun Cyfathrebu ac mae'r camau gweithredu'n cynnwys cynnal digwyddiadau galw heibio wyneb yn wyneb dros gyfnod o ddeuddydd.

Gweithio gyda Dŵr Cymru/Welsh Water (DCWW) i Wella Diogelwch Cronfeydd Dŵr

33. Fel rheolwyr System Reoleiddio Afon Dyfrdwy, rydym yn gweithio'n agos gyda DCWW i geisio cyflwyno Mesurau Pwysig er Budd Diogelwch yn Llyn Celyn. Er mwyn i'r gwaith hwn gael ei gwblhau'n ddiogel, rhaid gostwng lefelau'r dŵr yn y gronfa a'u cadw felly tra bydd y gwaith yn cael ei wneud. Disgwylir i'r gwaith ddechrau yn yr hydref a bydd yn parhau dros y gaeaf ac i mewn i 2023. Mae'r tîm Hydroleg a Rheoli Adnoddau Dŵr, sy'n rheoli'r gwaith o ddydd i ddydd ar Afon Dyfrdwy, wedi gorfod pennu sut gellir gostwng a chynnal lefelau'r dŵr yn y gronfa heb effeithio ar yr amgylchedd nac ar gyflenwad dŵr y cyhoedd a sut gallai hyn effeithio ar reoli perygl llifogydd a rhanddeiliaid eraill megis defnyddwyr hamdden. Rhannwyd y cynllun gweithredol arfaethedig gyda Phwyllgor Ymgynghorol Afon Dyfrdwy, a bydd cynllun ar gyfer gostwng lefel y dŵr yn cael ei roi ar waith er mwyn i Dŵr Cymru allu cwblhau ei waith diogelwch.

Prosiect Telemetreg Cronfeydd Dŵr

34. Mae gwaith ar droed yn nifer o gronfeydd dŵr CNC i wella gwaith monitro a diogelwch fel rhan o'r rhaglen cronfeydd dŵr. Mae Teledu Cylch Cyfyng ynghyd ag offer hydrometreg a thelemetreg gyda grisiau, llwybrau a gwell diogelwch wrthi'n cael eu

gosod mewn cronfeydd dŵr allweddol ledled y gogledd. Bydd hyn yn galluogi rheolwyr asedau a swyddogion ar ddyletswydd i weld a oes unrhyw broblemau posibl yn ein cronfeydd dŵr a pha un a oes angen mynd ar y safle i archwilio cyflwr y gronfa, i gofnodi lefel y dŵr ac i roi gweithdrefnau argyfwng ar waith.

Gwarchodfa Natur Cynffig

35. Mae Ymddiriedolaeth Corfforaeth Cynffig a Cyfoeth Naturiol Cymru wedi llofnodi cytundeb rheoli pum mlynedd i ddiogelu nifer o rywogaethau bywyd gwyllt prin yng Ngwarchodfa Natur Genedlaethol Cynffig.
36. Mae'r warchodfa yn safle eithriadol o ran cadwraeth. Mae'n cynnwys oddeutu 1,300 acer o wlyptiroedd a thwyni tywod a reolir, ac mae wedi'i lleoli ar arfordir De Cymru rhwng Porthcawl a Phort Talbot.
37. Gellir dadlau bod y safle'n cynnal un o'r systemau twyni tywod pwysicaf yn y DU ynghyd â phoblogaeth arwyddocaol o degeirianau'r fign galchog (sef blodyn eithriadol o brin). Ymhellach, mae'r safle'n cynnwys dyfroedd clir Llyn Cynffig; mae'r llyn hwn yn 70 acer o faint a dyma'r llyn naturiol mwyaf yn Ne Cymru. Trosglwyddwyd y gwaith o reoli'r safle yn ôl i ddwylo Ymddiriedolaeth Corfforaeth Cynffig ar ôl i brydles reoli Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ddod i ben ym mis Ionawr 2020. Mae Ymddiriedolaeth Corfforaeth Cynffig a CNC, y naill yn dirfeddiannwr a'r llall yn geidwad ar y tir hwn, wedi bod yn gweithio'n agos i lunio trefniadau ar gyfer rheoli'r safle gwarchoddedig. Mae'r cytundeb yn cynnwys rheoli'r modd y caiff y safle ei bori gan dda byw ynghyd â rheoli'r llystyfiant fel y gellir cynnal system dwyni symudol – mae hyn yn bwysig os ydym am weld bywyd gwyllt prin y twyni yn ffynnu.

Ailagor Ffordd Goedwig Cwm Carn yn ffurfiol

38. Estynnwyd gwahoddiad i urddasolion ddod draw i ddathlu ailagor Ffordd Goedwig Cwm Carn yn swyddogol ar 6 Gorffennaf 2020, flwyddyn ar ôl iddi gael ei hailagor ar gyfer y cyhoedd.
39. Yn sgil cydweithredu llwyddiannus rhwng Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, Cyfoeth Naturiol Cymru a'r gymuned leol, mae'r safle wedi cael ei weddnewid. Bu'r Ffordd Goedwig ar gau am chwe blynedd wrth inni ddelio â *Phytophthora Ramorum* ar y safle. Buddsoddodd CNC dros £2m yn y gwaith o ailwampio'r ffordd – yn cynnwys rhoi wyneb newydd arni, gwella diogelwch y safle ac uwchraddio'r manau parcio.
40. Erbyn hyn, gall Coedwig Cwm Carn ymfalchïo yn y ffaith bod ganddi amrywiaeth eang o gyfleusterau newydd a gwell, yn cynnwys y Ffordd Goedwig ar ei newydd wedd, llety o'r radd flaenaf a chanolfan ymwelwyr wobrwyl – a'r cwbl ar safle lle ceir coetir cymysg, llynnoedd a thir comin lle gall ymwelwyr fwynhau golygfeydd godidog o Aber Afon Hafren a bryngaer Oes Haearn Twmbarlwm.

41. Bydd y digwyddiad yn gyfle i fynd ar daith dywysedig o amgylch y safle a chlywed sut caiff yr ardaloedd eu defnyddio gan filoedd o ymwelwyr bob blwyddyn.

Busnes Mewnol

Llywodraethu Mewnol

42. Ym mis Ebrill, cymerodd y Tîm Gweithredol gamau i gryfhau mwy ar ein trefniadau llywodraethu mewnol wrth iddynt gymeradwyo tair dogfen allweddol. Wrth i'r trefniadau hyn ymwreiddio, y gobaith yw y byddant yn ffynhonnell cyngor a chyfeiriad i'r staff ynglŷn â phrosesau penderfynu a chofnodi cadarn, er mwyn inni allu gwneud penderfyniadau cydwybodol sy'n seiliedig ar dystiolaeth gadarn ar bob lefel o fewn y sefydliad, gan ddiogelu CNC yn wyneb unrhyw her bosibl.
43. Ein Model Gweithredu Llywodraethu yw ein fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau yn CNC. Gyda'i gilydd, nod ein 'fframwaith' o ddogfennau penderfynu yw hwyluso ac ymwreiddio dulliau llywodraethu da o ran gwneud penderfyniadau ar lefel sefydliadol trwy ddarparu'r canlynol:
- Cyngor ac arweiniad ynghylch sut i wneud penderfyniadau cadarn a sut i ddangos tystiolaeth o'r penderfyniadau hynny
 - Eglurder ynghylch pwy sydd ag awdurdod dirprwyedig i gymeradwyo dogfennau busnes allweddol (Y Gofrestr Awdurdod Dirprwyedig)
 - Eglurder ynghylch pwy a all wneud penderfyniadau a rhoi cymeradwyaeth mewn perthynas â'n fframwaith Statudol a Chyfreithiol (SaLS)
 - Eglurder ynghylch pwy a all wneud ymrwymadau ariannol ac ymrwymadau contractiol cyfreithiol rwymol (MoM)
 - Eglurder ynghylch pwy a ddylai fod yn gyfrifol am benderfyniadau allweddol arbennig, pwy a ddylai fod yn atebol am y penderfyniadau hynny, â phwy y dylid ymgynghori yn eu cylch, a phwy y dylid eu hysbysu yn eu cylch (RACI).
44. Mae'r Gofrestr Awdurdod Dirprwyedig yn elfen newydd arall yn ein Model Gweithredu Llywodraethu ac mae'n cynnig eglurder ynghylch pa unigolion o fewn y sefydliad y mae'r Prif Weithredwr wedi dirprwyo awdurdod iddynt ar gyfer cymeradwyo dogfennau allweddol fel strategaethau, polisiau a chanllawiau.
45. Mae'n rhestru grwpiau o ddeiliad rolau/deiliaid rolau unigol y dirprwywyd awdurdod iddynt ar gyfer cymeradwyo dogfennau busnes allweddol, yn y meysydd busnes a nodir. Dylid darllen a defnyddio'r ddogfen hon ar y cyd â'r egwyddorion dirprwyo a nodir yn y Model Gweithredu Llywodraethu.
46. Mae ein Fframwaith Llywodraethu newydd yn wahanol i'r ddogfen fframwaith gyda Llywodraeth Cymru. Nid yw'n disodli dogfennau cyfredol sy'n nodi ein cyfrifoldebau cyfreithiol, megis y Cynllun Statudol a Chyfreithiol (SaLS), ac felly nid yw'n cynnwys rhestr hollgynhwysfawr o ddeddfwriaethau sy'n berthnasol i'n gwaith. Yn y bôn, dogfen

fewnol yw ein Fframwaith Llywodraethu lle nodir y strategaethau, y polisïau llywodraethu, y strwythurau penderfynu a'r atebolrwydd y mae ein trefniadau llywodraethu yn gweithredu ar ei sail.

47. Mae'r fframwaith llywodraethu yn pennu'r rolau, y cyfrifoldebau a'r gweithdrefnau sy'n ein galluogi i fynd i'r afael â'n busnes yn effeithiol ac yn effeithlon a lleihau risgiau i'r sefydliad.

Diwrnod #TîmCyfoeth

48. Ar 15 Mehefin 2022, cynhaliwyd ein pedwerydd Diwrnod #TîmCyfoeth – ein digwyddiad wyneb yn wyneb cyntaf ers y pandemig. Y briff oedd cynnig cyfle i bobl ail-greu cysylltiadau, dathlu ein llwyddiannau ac edrych tua'r dyfodol, gan sicrhau hefyd bod y digwyddiad yn ystyrlon i gynulleidfa ar-lein.
49. Gydag areithiau ffurfiol a seremoni wobrwyo ar y dechrau a'r diwedd, bwriad y diwrnod oedd creu cyfle anffurfiol i sgwrsio ac ymgysylltu. Trefnwyd ambell sgwrs ar gyfer y rhai a oedd yn dymuno cymryd rhan. Cafwyd cynnwys cryf ar-lein drwy gydol y diwrnod gyda chysylltiadau byw â safleoedd ledled Cymru a darlledwyd cyfweiliadau byw gyda'r mynychwyr.
50. Roedd rhan ffurfiol y diwrnod yn cynnwys anerchiad gan y Farwnes Tanni Grey Thompson. Ymunodd â ni'n fyw ar-lein ac ymhelaethodd ar y themâu a drafodwyd gan Syr David a minnau yn ein hareithiau. Gwych oedd cael cwmni Tanni ac mae'r adborth a gafwyd ynglŷn â'i haraith wedi bod yn rhagorol.
51. Hefyd, fe wnaethom gyhoeddi enillwyr Gwobrau #TîmCyfoeth. Roedd gennym wobwr 'Diolch' newydd eleni, lle'r aethom ati i chwilio am bobl oddi allan i CNC a oedd yn haeddu cydnabyddiaeth. Eleni, penderfynasom 'ddiolch' i Phil Thomas sydd wedi bod yn mesur y glaw bob mis ers ugain mlynedd.
52. Amcangyfrifwn fod oddeutu 400-500 o bobl wedi mynychu yn y cnawd a bod oddeutu 300 o bobl wedi ymuno â ni ar-lein. Byddwn yn gwneud rhagor o waith gwerthuso, ond mae'r ymateb cychwynnol gan y mynychwyr a'r rhai a ymunodd ar-lein wedi bod yn eithriadol o gadarnhaol. Mae'r canlynol yn crynhoi'r effaith a gafodd y diwrnod – 'Mae CNC yn sefydliad gwych i fod yn rhan ohono, yn bennaf oherwydd y bobl anhygoel sy'n gweithio iddo!'

Adnewyddu

53. Bu'r rhaglen Adnewyddu â rhan flaenllaw yn niwrnod #TîmCyfoeth. Roedd gan yr holl ffrydiau gwaith stondin a buont yn ymgysylltu â chydweithwyr. Aeth ein cydweithwyr yn y tîm Cyfleusterau ati i arddangos cyfres o gysyniadau cynllunio ar gyfer manau gweithio hybrid, a chafodd y cysyniadau hynny groeso da gan bawb. Y cam nesaf fydd rhoi cynnig ar rai o'r manau hyblyg hyn yn ein swyddfeydd.

54. Rhoddodd ein cydweithwyr yn nhîm y Fflyd gyflwyniad ymarferol yn sôn am Gerbydau Trydan a defnyddiwyd dau o gerbydau Nissan Leaf CNC i roi arddangosiadau.
55. Mae ein ffrwd waith trafndiaeth wedi cwblhau dau contract i gyflenwi tanwydd Olew Llysiâu Hydrogenaidd (HVO) i'w ddefnyddio yn ein peiriannau. Mae'r tanwydd hwn yn disodli diesel coch ac mae ei allyriadau CO₂ hyd at 91% yn is o gymharu â diesel.
56. Dros y misoedd nesaf, bydd rheolau cadw pellter cymdeithasol yn ein swyddfeydd a'n depos yn cael eu llacio. Bydd ein Timau Cyfleusterau yn defnyddio adnodd awyru y British Occupational Hygiene Society i ddiweddarau asesiadau adeiladau a byddant yn cymryd y camau lliniaru sy'n angenrheidiol i lacio'r cyfyngiadau.

Rhagolwg

Dydd Llun 18 – Dydd Iau 21 Gorffennaf – Y Sioe Amaethyddol Frenhinol
Dydd Sadwrn 30 Gorffennaf – Dydd Sadwrn 6 Awst – Yr Eisteddfod Genedlaethol, Tregaron
Dydd Mercher 17 Awst – Galwad i Ddiweddarau'r Bwrdd
Dydd Iau 8 Medi – Y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg
Dydd Mawrth 13 Medi – Y Pwyllgor Pobl a Thaliadau
Dydd Iau 15 Medi – Y Pwyllgor Cyllid
Dydd Mawrth 20 – Dydd Iau 22 Medi – Cyfarfod Bwrdd CNC

Papur y Bwrdd

Teitl y Papur:	Diweddariad y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg (ARAC)
Cyfeirnod y Papur:	22-07-B08
Noddir y Papur gan:	Catherine Brown - Cadeirydd ARAC
Cyflwynir y Papur gan:	Catherine Brown

Diben y Papur:	Gwybodaeth
Argymhelliad:	I nodi'r diweddariad

Pwnc

1. Mae'r papur hwn yn darparu diweddariad i'r Bwrdd yn dilyn cyfarfod ARAC ar 9 Mehefin 2022. Gellir sicrhau bod cofnodion y cyfarfod ar gael i unrhyw aelod o'r Bwrdd sydd â diddordeb.
2. Nodir isod y materion y mae angen i holl aelodau'r Bwrdd wybod amdanynt ym marn Cadeirydd ARAC.

Diweddariad

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Drafft (2021-22)

3. Adolygodd y Pwyllgor y wybodaeth a gyflwynwyd i gefnogi'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon er mwyn sicrhau ei bod yn gydnaws â'r adroddiadau ariannol a'i bod yn cydfynd â'n dealltwriaeth o sefyllfa'r sefydliad.

Adroddiad Cyllid

4. Cyflwynwyd diweddariad i'r Pwyllgor o ganfyddiadau'r adolygiad o'r Memoranda Cytundebau a'r trefniadau sy'n cael eu rhoi ar waith i ymdrin â threfniadau partneriaeth nad ydynt yn cydymffurfio. Cyflwynir mwy o wybodaeth yn y cyfarfod nesaf.
5. Bydd adroddiad llawn yn cael ei ddarparu i ARAC ym mis Medi 2022 ynglŷn â'r materion sy'n gysylltiedig â chyflwyno'r system labordy newydd a'r hyn y gall y sefydliad ei ddysgu ohoni.

Diweddariad Blynyddol Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth

6. Mae llawer iawn o waith wedi'i wneud yn ystod y flwyddyn, ac mae ARAC yn ddiolchgar i bawb a gymerodd ran.

7. Mae'r Pwyllgor wedi gofyn am ystyried cynnal archwiliad ledled y sefydliad yn ymwneud â rhoi'r polisi rheoli cofnodion ar waith, er mwyn deall yr hyn y gellir ei wneud i helpu i wella cydymffurfiaeth.
8. Hefyd, mae Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Datblygu Corfforaethol yn ystyried y fforwm a'r amseriad mwyaf priodol i gynnal trafodaeth gan y Bwrdd ar ansawdd data.

Diweddariad ar Reoli Risg a Llywodraethu Corfforaethol

9. Darparwyd diweddariad chwarterol ar Reoli Risg i ARAC. Fel rhan o'r diweddariad nesaf, mae'r Pwyllgor wedi gofyn am:
 - ragor o wybodaeth am y broses sydd ar waith ar gyfer nodi a chynnwys materion yng Nghofrestrau Risg y Bwrdd Busnes;
 - crynodeb o'r risgiau sy'n gysylltiedig â thangyflawniad y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer cronfeydd dŵr, a sut y bydd modd mynd i'r afael ag effeithiau unrhyw danwariant.

Diweddariad ar Ymarferiad Mapio Sicrwydd Sefydliadol

10. Cyflwynwyd diweddariad i ARAC gan gynrychiolwyr Deloitte mewn perthynas â'r gwaith sy'n cael ei wneud ar fapio sicrwydd, sy'n ceisio sicrhau gwelliannau ym mhob un o feysydd y sefydliad.

Diweddariad ar Archwilio Mewnol

11. Er bod y sefyllfa yn well nag yn 2020/21, mae'r Farn Archwilio Mewnol Flynyddol ddrafft ar gyfer 2021/22 yn nodi bod sicrwydd yn ymwneud â rheolaethau yn parhau i fod yn "gyfyngedig". Mae angen gwneud rhagor o waith i roi gwelliannau arfaethedig ar waith ym meysydd llywodraethu, risg a rheolaeth er mwyn sicrhau barn archwilio mewnol gymedrol. Serch hynny, mae ARAC yn cydnabod bod cynnydd parhaus yn cael ei wneud, ac mae pawb yn awyddus i ddatblygu'r gwaith da gan staff a rheolwyr hyd yma i barhau i sicrhau cynnydd.
12. Adolygodd y Pwyllgor bum Adroddiad Archwilio Mewnol. Roedd pedwar ohonynt yn cynnig barn archwilio mewnol gymedrol (*y Swyddogaeth Asiantaeth Tir; Trwyddedau Gwastraff; Ansawdd Monitro Samplau ar gyfer Cemeg ac Ecoleg Dŵr Croyw; a Datblygu Masnachol - Cyflawni'r Portffolio Ynni*).
13. Roedd yr Adroddiad Archwilio ar Ymgysylltu â Rhanddeiliaid Allweddol yn cynnig barn sicrwydd cymedrol ar gyfer y grŵp rhanddeiliaid cwsmeriaid a barn sicrwydd cyfyngedig mewn perthynas â'r sefydliad cyffredinol. Mae ARAC yn croesawu'r dull pragmatig sydd wedi'i fabwysiadu gan yr Archwiliad Mewnol y tro hwn ac mae'n dymuno nodi bod yr adroddiad wedi nodi bod angen arweiniad strategol mwy cadarn gan y Bwrdd yn y maes hwn.
14. Bydd ARAC yn adolygu Adroddiad Archwilio Chwythu'r Chwiban, y disgwylir iddo gynnig barn sicrwydd cyfyngedig, ym mis Gorffennaf 2022 ar ôl i'r Rheolwyr gael cyfle i ystyried y canfyddiadau.
15. Gofynnodd y Pwyllgor a fyddai modd ystyried sefydlu rhyw fath o ddangosydd perfformiad ar gyfer lleihau'r baich dogfennau oddi mewn i CNC, er mwyn sicrhau bod dogfennau'n addas i'r diben a bod modd eu defnyddio'n effeithiol.

Sesiwn Gaeedig

16. Cynhaliodd aelodau ARAC eu sesiwn gaeedig flynyddol gyda'r Swyddog Cyfrifyddu.

Papur Bwrdd CNC

Dyddiad y Cyfarfod:	13 Gorffennaf 2022
Teitl y Papur:	Diweddariad y Pwyllgor Cyngori ar Dystiolaeth
Cyfeirnod y Papur:	22-07-B09
Noddir y Papur gan:	Peter Rigby – Cadeirydd y Pwyllgor Cyngori ar Dystiolaeth
Cyflwynir y Papur gan:	Peter Rigby
Diben y papur	Gwybodaeth
Crynodeb	Nodi'r diweddariad

Mater

1. Mae'r papur hwn yn darparu diweddariad i'r Bwrdd yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Cyngori ar Dystiolaeth ar 7 Mehefin 2022. Gellir sicrhau bod cofnodion y cyfarfod ar gael i unrhyw aelod o'r Bwrdd sydd â diddordeb.

Diweddariad

Busnes Safonol y Pwyllgor

2. Cynhaliodd y Pwyllgor Cyngori ar Dystiolaeth gyfarfod wyneb yn wyneb am y tro cyntaf.
3. Mae Dr Tom Nisbet a'r Athro Melanie Austen wedi'u penodi'n aelodau newydd o'r Pwyllgor.

Dealltwriaeth o Ymddygiadau a Llygredd yn Deillio o Waith Adeiladu

4. Cyflwynwyd trosolwg i'r Pwyllgor o'r gwaith sy'n mynd rhagddo yng Nghanol De Cymru i leihau llygredd o ganlyniad i waith adeiladu. Trafododd y Pwyllgor y dull gweithredu a'r camau nesaf ar gyfer y tîm Dealltwriaeth o Ymddygiadau. Trafodwyd y pwysau sydd wedi'u nodi yn y system ehangach hefyd.
5. Awgrymodd y Pwyllgor fod modd gwneud gwaith ymchwil i arferion cwmnïau a datblygwyr er mwyn nodi arferion problematig, a sut y byddent yn osgoi llygredd.

Rheolaeth Addasol

6. Darparwyd trosolwg o Rheolaeth Addasol CNC a'r camau nesaf. Trafododd y Pwyllgor y gwerthusiad o'r angen i fynegi'r risgiau dan sylw a nodi a oes angen dull rheoli risg. Hefyd, trafodwyd sut i gyfleu rheolaeth addasol i gymunedau sy'n cael eu heffeithio, yn ogystal â'r cyfleoedd ar gyfer dysgu sefydliadol ac mewn timau a phrosiectau unigol.
7. Darparwyd enghreifftiau o astudiaethau achos mewn ardaloedd gwarchoddedig, a nodwyd bod Sero Net yn enghraifft o faes lle mae rheoli addasol yn bwysig.

Adroddiadau Ymchwil Tystiolaeth CNC

8. Cyflwynwyd trosolwg i'r Pwyllgor o'r ymchwil ddiweddaraf ar reoli llifogydd yn naturiol a sut y byddai'n cael ei defnyddio i lywio polisïau perygl llifogydd a rheoli tir yn y dyfodol gan ddefnyddio dull cyfunol a chydweithredol.
9. Darparwyd trosolwg o reoli tir yn gynaliadwy hefyd, gan amlinellu rôl CNC fel rheolwr tir. Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth ar gyfer dalgyloedd bach a llifogydd; yr angen i ystyried y manteision bioamrywiaeth; a sut i hyrwyddo'r coetir sy'n ehangu i sicrhau manteision lluosog.

Ymagwedd CNC at Wyddoniaeth Dinasyddion

10. Trafododd y Pwyllgor y manteision posibl i CNC o weithio gyda grwpiau gwyddoniaeth dinasyddion, megis: ymgysylltu ac addysg; lles; cynhyrchu data defnyddiol; datblygu dulliau gwyddoniaeth dinasyddion; a chymorth. Cafwyd trafodaethau i CNC ddatblygu partneriaeth gyda sefydliadau priodol.
11. Amlinellwyd y materion a nodwyd wrth weithio gyda gwyddoniaeth dinasyddion a nodwyd bod cynlluniau ar y gweill i weithio gyda gwyddonwyr i sicrhau'r manteision ehangach a derbyn data o ansawdd uchel. Hefyd, bu'r Pwyllgor yn trafod natur y dystiolaeth a gynhyrchwyd; i ba raddau y mae'n hanfodol cyfodol dystiolaeth; a sut y byddai'r manteision yn cael eu cofnodi.

Data Gwyddoniaeth Agored

12. Cyflwynwyd trosolwg o Ddata Gwyddoniaeth Agored, gan gynnwys y rhwymedigaethau statudol i ddeddfwriaeth berthnasol. Cyhoeddir data CNC mewn sawl man megis: MaoData Cymru; Data.Gov.UK; a phorth newydd Llywodraeth Cymru ar gyfer cyhoeddi metadata newydd. Roedd cyfle i arddangos y defnydd o'r data, gan gynnwys sut y byddai'n ysgogi ac yn llywio newid amgylcheddol. Byddai astudiaethau achos a chyfleoedd ychwanegol yn cael eu datblygu ar flog Digidol a Data Cymru.
13. Trafododd y Pwyllgor sut y gallai CNC wella mynediad at ddata academaidd a nodi meysydd i'w gwella. Awgrymodd y Pwyllgor y gallai'r timau estyn allan at y tîm Ymchwil Agored yn y Brifysgol Agored i drafod yr heriau sy'n cael eu hwynebu.

Rhaglen Mawndiroedd

14. Trafododd y Pwyllgor y cynigion i ehangu'r Rhaglen Mawndiroedd; gan gynnwys sut i fesur a dangos y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu o safbwynt canlyniadau allweddol.

Cyflwynwyd trosolwg o'r cynnydd diweddar ar y gweithgaredd adfer a'r her i'w ehangu. Hefyd, bu'r Pwyllgor yn trafod sut y gellid ymestyn y rhaglen i sefydliadau coedwigaeth eraill yn y DU a'i chyflwyno mewn ffordd gydweithredol.

Llywodraethu'r Pwyllgor Cynghori ar Dystiolaeth / UFA

15. Mae diweddariad wedi'i ddarparu ar Platfform yr Amgylchedd Cymru, a bydd y Pwyllgor yn derbyn diweddariad arall ar ymgysylltu academaidd ym mis Hydref.

Papur y Bwrdd

Teitl y Papur:	Diweddariad y Pwyllgor Cyllid
Cyfeirnod y Papur:	22-07-B10
Noddir y Papur gan:	Syr David Henshaw - Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Cyflwynir y Papur gan:	Syr David Henshaw

Diben y Papur:	Gwybodaeth
Argymhelliad:	Nodi'r diweddariad

Mater

1. Mae'r papur hwn yn darparu diweddariad i'r Bwrdd yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Cyllid ar 10 Mehefin 2022.

Diweddariad

Diweddariad ar yr Ymarferiad Sylfaenol

2. Darparwyd diweddariad ar gam tri gwaith yr Ymarferiad Sylfaenol gan gynnwys y cynnydd sydd wedi'i wneud ar y ffrydiau gwaith sy'n esblygu, y dull o ddiffinio Cytundebau Lefel Gwasanaeth a datblygu cais Buddsoddi i Arbed.
3. Cyflwynodd y Pwyllgor adborth amrywiol a fyddai'n cryfhau'r wybodaeth sy'n cael ei pharatoi ar gyfer Llywodraeth Cymru, i'w helpu i wneud penderfyniadau am y meysydd y mae am i CNC ganolbwyntio arnynt a'r lefelau gwasanaeth y gellid eu darparu.
4. Hefyd, darparwyd crynodeb lefel uchel o gyllideb CNC ar gyfer 2023/24, a bu'r Pwyllgor yn trafod peth o'r pwysau uniongyrchol sy'n wynebu'r sefydliad.

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2021-22

5. Adolygodd y Pwyllgor adran yr Adroddiad Perfformiad drafft o'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon.

Adolygiad Strategol o Daliadau

6. Cyflwynwyd diweddariad i aelodau'r Pwyllgor ar raglen yr Adolygiad Strategol o Daliadau ac ar rai o'r ffioedd arfaethedig sy'n cael eu hystyried. Yn dilyn trafodaeth, penderfynodd

y Pwyllgor argymhell y dylid adennill costau'n llawn, o ystyried nad yw'r sefydliad wedi bod yn gwneud hynny ers peth amser.

Diweddariad ar Swyddfa Rheoli'r Rhaglen

7. Darparwyd diweddariad ar waith Swyddfa Rheoli'r Rhaglen, gan gynnwys perfformiad yn ystod 2021/22 a'r dyheadau wrth symud ymlaen. Awgrymodd y Pwyllgor y gallai fod yn ddefnyddiol i'r Bwrdd ehangach dderbyn diweddariad cryno ar ddyheadau Swyddfa Rheoli'r Rhaglen hefyd.

Diweddariad ar y Gwasanaeth Cymorth Rheoli Contractau

8. Cyflwynwyd diweddariad i'r Pwyllgor ar y Gwasanaeth Cymorth Rheoli Contractau sydd wedi'i lansio yn ddiweddar, gan gynnwys y cynnydd sydd wedi'i wneud hyd yma, y blaenoriaethau uniongyrchol ar gyfer y Gwasanaeth ac unrhyw feysydd i ganolbwyntio arnynt yn fwy hirdymor.
9. Bydd y Pwyllgor Cyllid yn parhau i dderbyn diweddariadau ar waith y Gwasanaeth Cymorth Rheoli Contractau hyd nes bod y rhan hon o'r sefydliad wedi'i sefydlu'n iawn.

Papur y Bwrdd

Teitl y Papur:	Diweddariad y Pwyllgor Pobl a Thaliadau
Cyfeirnod y Papur:	22-07-B11
Noddir y Papur gan:	Julia Cherrett - Cadeirydd y Pwyllgor Pobl a Thaliadau
Cyflwynir y Papur gan:	Julia Cherrett

Diben y Papur:	Gwybodaeth
Argymhelliad:	Nodi'r diweddariad

Pwnc

1. Mae'r papur hwn yn darparu diweddariad i'r Bwrdd yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Pobl a Thaliadau ar 24 Mehefin 2022. Gellir sicrhau bod cofnodion y cyfarfod ar gael i unrhyw aelod o'r Bwrdd sydd â diddordeb.
2. Nodir isod y materion y mae angen i holl aelodau'r Bwrdd wybod amdanynt ym marn Cadeirydd y Pwyllgor Pobl a Thaliadau.

Diweddariad

Diweddariad Cyffredinol

3. Cafodd y Pwyllgor ddiweddariad ar faterion y Pwyllgor Pobl a Thaliadau gan Gyfarwyddwr Gweithredol y Strategaeth Gorfforaethol. Roedd hyn yn cynnwys:
 - Y newid i'r strwythur Rheoli Pobl sydd wedi'i ddiwygio ers penodi'r Pennaeth Datblygu Sefydliadol newydd. Mae Dysgu a Datblygu bellach yn gyfrifoldeb y Rheolwr Lles, Iechyd a Diogelwch.
 - Amlinellwyd y rolau newydd sydd wedi'u creu diolch i gyllideb ychwanegol. Mae arian ychwanegol wedi'i ddyrannu ar gyfer systemau TGCh ac ar gyfer materion sydd wedi codi'n benodol o'r Strategaeth Bobl a'r risgiau strategol a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Pobl a Thaliadau.
 - Bydd y Rhaglen Trawsnewid Pobl yn rhaglen newid sy'n defnyddio dull cyfannol. Bydd Rheolwr newydd y Rhaglen yn sicrhau bod llywodraethu a strwythur da ar waith, a bod y prif bwyslais ar werthoedd y cwsmer a CNC.

4. Mae'r Pwyllgor Pobl a Thaliadau yn croesawu'r strwythur newydd a phenodiad Rheolwr y Rhaglen. Gofynnodd y Pwyllgor am lenwi swyddi gwag allweddol yn gynnar er mwyn sicrhau bod cyfnodau deiliad newydd a hen ddeiliad y swydd yn gorgyffwrdd.

Gwybodaeth Reoli/Absenoldeb oherwydd Salwch

5. Derbyniodd y Pwyllgor y ffigurau ar gyfer Gwybodaeth Reoli ac absenoldebau oherwydd salwch.
6. Trafododd aelodau'r Pwyllgor y posibilrwydd o feincnodi gyda sefydliadau eraill ar gyfer swyddi y mae'n anodd iawn eu llenwi ac er mwyn sicrhau bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn gystadleuol.
7. Trafododd y Pwyllgor absenoldeb oherwydd salwch, a nodwyd bod cyfradd salwch gyfartalog CNC, fel sefydliad, yn is na'r gyfradd ar gyfer y Sector Cyhoeddus a Chymru. Roedd y drafodaeth yn cynnwys sut i hyfforddi rheolwyr i ddelio â salwch a heriau amgylchedd hybrid. Nodwyd y duedd ddiweddar i sefydliadau ganolbwyntio ar les yn hytrach nag absenoldeb oherwydd salwch.

Diweddariad ar Les, Iechyd a Diogelwch

8. Cafodd y Pwyllgor ddiweddariad ar yr Adroddiad Interim ar Les, Iechyd a Diogelwch. Bu cynnydd mewn atgyfeiriadau iechyd meddwl, ond nodwyd bod hwn yn ffactor cadarnhaol gan ei fod yn dangos bod pobl yn teimlo y gallent estyn allan am gymorth. Cafwyd diweddariad ar yr ailasesiad o Safon Iechyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, ac mae tudalen wedi'i sefydlu i gyfeirio staff at gymorth lles ariannol.

Dysgu a Datblygu gan gynnwys ISO 45001

9. Cyflwynodd y Rheolwr Lles, Iechyd a Diogelwch drosolwg i'r Pwyllgor o'r hyn a ddysgwyd o'r safon ISO45001, gan atgoffa aelodau o'r diffyg cydymffurfio a'r canlyniadau yn dilyn ailymweliad gan yr archwilwyr. Amlinellodd y Rheolwr Lles, Iechyd a Diogelwch y cynllun datblygu ar gyfer tîm Hyfforddi CNC.
10. Croesawyd y Cynllun gan y Pwyllgor, a nododd fod cynnydd yn cael ei wneud.

Rhaglen Adfywio

11. Cafodd y Pwyllgor ddiweddariad ar y Rhaglen Adfywio a'r ffrwd waith Cefnogi Staff yn benodol. Hefyd, cafodd y Pwyllgor ddiweddariad ar ddatblygu'r broses o lacio cyfyngiadau cadw pellter cymdeithasol mewn swyddfeydd.
12. Cododd y Pwyllgor faterion megis contractau ar gyfer gwahanol fathau o weithwyr oddi mewn i Cyfoeth Naturiol Cymru, sut mae cynhyrchiant yn cael ei ystyried a'i fesur, a manteision ac anfanteision gweithio gartref.

Adroddiad Blynyddol ar yr Iaith Gymraeg

13. Croesawodd y Pwyllgor yr Adroddiad Blynyddol ar yr Iaith Gymraeg. Mae rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud, ond mae capasiti'n parhau i fod yn broblem, a bydd angen ystyried hyn os oes uchelgais i wneud mwy na dim ond cydymffurfio yn y maes hwn.

14. Awgrymodd y Pwyllgor y dylai'r tîm fod yn fwy pendant wrth ofyn i'r Bwrdd ddangos arweiniad yn y maes hwn, ond awgrymodd hefyd sut i sicrhau bod mwy o bobl yn helpu i hyrwyddo'r Gymraeg.

Adolygu Risgiau

15. Gofynnwyd i'r Pwyllgor adolygu'r Datganiadau Risg a'r Datganiadau ar y Parodrwydd i Dderbyn Risg ar gyfer risgiau'r Bobl yn CNC: SR10 – Adnoddau (gan gynnwys recriwtio); SR06 – Adnoddau Staff (Gallu); SR03 – Iechyd a Diogelwch Staff CNC, Contractwyr CNC, Ymwelwyr a Thenantiaid CNC.

Diweddariad Chwe mis ar y Strategaeth Profiad ac Ymgysylltu â Chwsmeriaid

16. Cyflwynwyd diweddariad i'r Pwyllgor ar gynnydd y Strategaeth Profiad ac Ymgysylltu â Chwsmeriaid. Mae'r gwaith wedi'i ystyried mewn ffordd fwy cyfannol ym meysydd Datblygu Digidol, TGCh a Sefydliadol ac mae'n canolbwyntio ar anghenion y cwsmer. Darparwyd diweddariadau eraill ar ailstrwythuro'r Hwb Cwsmeriaid, y Rhaglen Tôn Llais, a'r gwaith Mapio Teithiau Cwsmeriaid. Bu'r Pwyllgor yn trafod yr Archwiliad Canfyddiadau diweddar hefyd.

Eitem Archwilio Mewnol

17. Amlinellwyd y tri archwiliad diweddar a oedd yn cynnwys rheoli: Ymddygiad Gwael a Negyddol; Hyfforddiant, Dysgu a Datblygu; Diwylliant Corfforaethol. Nodwyd bod adnoddau ychwanegol wedi'u cadarnhau a bod gwaith yn parhau ar Archwiliad Cynllunio'r Gweithlu. Byddai'r gwaith hwn yn parhau i gael ei adrodd fel rhan o'r Rhaglen Trawsnewid Pobl. Gofynnwyd i'r Pwyllgor nodi'r cynnydd sy'n cael ei wneud.
18. Nodwyd y cynnydd gan y Pwyllgor, a diolchwyd i'r Pennaeth Archwilio Mewnol am ei hymgyssylltiad â'r Grŵp Tîm Arweinyddiaeth yn gyffredinol ac ar faterion sicrwydd.

Cymeradwyo Cylch Gorchwyl Diwygiedig

19. Roedd y Pwyllgor yn cytuno'n fras â'r Cylch Gorchwyl diwygiedig, ond bydd angen rhagor o drafodaeth ar rai meysydd.

Adroddiad Blynyddol ar Daliadau

20. Ystyriodd a chymeradwyodd y Pwyllgor yr Adroddiad Blynyddol ar Daliadau.

Llywodraethu'r Pwyllgor Pobl a Thaliadau

21. Ystyriodd y Pwyllgor y rhagolwg a chytunodd i newid y dull gweithredu fel bod agendâu sydd ar y gweill yn ymdrin â materion mewn grwpiau strategol yn hytrach nag fel eitemau unigol.

Datganiad ar Bolisi Tâl

22. Fe wnaeth y Pwyllgor ystyried a chymeradwyo'r Datganiad ar Bolisi Tâl.



Papur Bwrdd

Teitl y papur:	Diweddariad gan y Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig (PrAC)
Cyfeirnod y papur:	22-07-B12
Noddir y papur gan:	Rosie Plummer – Cadeirydd y Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig
Cyflwynir y papur gan:	Rosie Plummer
Diben y papur:	Gwybodaeth
Argymhelliad:	Nodi'r diweddariad

Mater

1. Mae'r papur hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig a gynhaliwyd ar 21 Mehefin 2022. Gall holl aelodau'r Bwrdd weld y cofnodion ar Diligent.
2. Gan sôn am faterion a ddeilliodd o'r cyfarfod, ac er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd, mae'r Cadeirydd yn cyflwyno diweddariad ynglŷn â'r materion a drafodwyd gan y Pwyllgor, yn cynnwys unrhyw faterion mae angen rhoi sylw arbennig iddynt.

Diweddariad

Y Rhaglen Tirweddau Dynodedig Integredig

3. Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig bod cyllid wedi'i gadarnhau gan Lywodraeth Cymru, dros gyfnod o dair blynedd, er mwyn bwrw ymlaen â gwaith yn ymwneud â'r Parc Cenedlaethol arfaethedig. Maes o law, disgwylir y bydd angen i CNC recriwtio staff i rolau allweddol er mwyn iddo allu cyflawni'r gwaith angenrheidiol. Mae hyn yn cynnwys sefydlu a chychwyn y broses o asesu dynodiadau tirweddau, yn ogystal â chasglu tystiolaeth er mwyn gweld a fyddai'r ardal arfaethedig yn addas i'w dynodi o'r newydd.
4. Bydd hyfforddiant yn cael ei drefnu ar gyfer aelodau'r Bwrdd yn ymwneud â'u rolau a'u cyfrifoldebau yn ystod y broses asesu a phenderfynu, a bydd aelodau newydd y Bwrdd sydd wrthi'n cael eu recriwtio ar hyn o bryd yn cael eu cynnwys yn yr hyfforddiant hwn.
5. Nododd y Pwyllgor pa mor bwysig yw hi i aelodau Bwrdd CNC fod yn ymwybodol o'r amryfal broblemau a chyfleoedd a allai effeithio ar y gwaith, er mwyn iddynt allu barnu'n briodol sut i fwrw ymlaen â'r materion. Mae ystyriaethau pwysig eraill sydd ar waith ar hyn o bryd yn cynnwys y Dadansoddiad Manwl o Fioamrywiaeth, yr adolygiad a gynhelir mewn ymateb i Adroddiad Glover, cynnydd y Cynllun Ffermio Cynaliadwy,

a'r posibilrwydd o ymestyn gweithfeydd ynni gwyrdd. Mae gan bob un o'r rhain oblygiadau o ran ystyriaethau'r broses ddynodi, a hefyd o ran tirweddau gwarchoddedig Cymru yn fwy cyffredinol.

6. Ym marn y Pwyllgor Ardaloedd Gwarchoddedig, mae hi'n bwysig i rôl a chylch gwaith CNC mewn perthynas â dynodiadau posibl, a hefyd yn ystod y broses hon, gael eu mynegi'n glir wrth randdeiliaid ac mewn fforymau cyhoeddus. O'r herwydd, mae'r Pwyllgor wedi gofyn i Gyfreithiwr Arbenigol CNC gadarnhau sefyllfa CNC fel cynghorydd gwrthrychol annibynnol a chanddo'r dasg o gasglu a gwerthuso'r dystiolaeth a chyflwyno argymhelliad i Lywodraeth Cymru ynglŷn ag addasrwydd, neu ddiffyg addasrwydd, unrhyw ardal i fod yn Barc Cenedlaethol newydd. Bydd y penderfyniad terfynol yn gorwedd gyda Llywodraeth Cymru.

Materion eraill

7. Yn ystod y cyfarfod, rhoddwyd y diweddaraf i'r Pwyllgor ynglŷn â llawer o raglenni sydd ar y gweill, nifer ohonynt yn gysylltiedig â'i gilydd, yn cynnwys:
 8. Y Dadansoddiad Manwl o Fioamrywiaeth o dan arweiniad Llywodraeth Cymru. Heb fuddsoddiad cysylltiedig, nododd y Pwyllgor Ardaloedd Gwarchoddedig fod yna berygl na ellir rhoi newidiadau gwirioneddol ar waith i ymdrin â materion systematig mwy.
 9. Y targed 30 erbyn 30, sy'n ymwneud â gwarchod a rheoli 30 y cant o dir a môr y byd mewn modd effeithiol erbyn 2030, a'r argymhellion a nodir yn adroddiad y British Ecological Society ynghylch y newidiadau sydd eu hangen er mwyn cyflawni'r targed.
10. Y cyfleoedd a'r materion a all ddeillio o ymarfer ymgynghori'r Papur Gwyrdd ar Adfer Natur.
11. Y rhaglen waith sy'n gysylltiedig â'r Gronfa Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau – Rhwydweithiau Natur ar gyfer 2021-22 a 2022-23.
12. Y Rhaglen Monitro Safleoedd Daearol yn CNC, y cynnydd parhaus a'r gwaith strategol a wneir.
13. Y Prosiect Cwblhau Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchoddedig a gynhelir ar ran Llywodraeth Cymru. Ar ôl peth oedi, nodwyd bod y Prosiect bellach wedi cael ei ohirio'n swyddogol hyd nes y bydd modd i'r Dadansoddiad Manwl o Fioamrywiaeth lywio unrhyw argymhellion.
14. Hefyd, cafwyd diweddariad yn ymwneud â'r Rhaglen Mawndiroedd a'i goblygiadau o ran Ardaloedd Gwarchoddedig.
15. Cafwyd cyflwyniadau'n sôn am ddynodiadau a nodweddion arbennig y tri Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) a gymeradwywyd yn ddiweddar, sef:
 - SoDdGA Malthouse Grasslands a Little Hills Farm, Abertawe;
 - SoDdGA Mynydd Epynt, Powys;
 - SoDdGA Chwarel a Mwyngloddfa Penarth, Sir Ddinbych.

Aeth y Pwyllgor Ardaloedd Gwarchoddedig ati i wneud nodyn arbennig o'r heriau a'r cyfleoedd penodol sy'n gysylltiedig â'r broses ddynodi ar bob safle a hefyd mewn perthynas â rheoli eu hamgylchiadau a'u nodweddion penodol.

16. Nid oes unrhyw gyfarfodydd ar gyfer hysbysu safleoedd gwarchoddedig wedi'u trefnu yn ystod gweddill 2022. Bydd hyfforddiant cyfreithiol yn ymwneud â safleoedd gwarchoddedig yn cael ei gynnal ar gyfer aelodau'r Pwyllgor Ardaloedd Gwarchoddedig yn ystod mis Chwefror 2023, a bydd yr hyfforddiant hwn yn cyd-ddigwydd â'r trefniadau dros dro ar gyfer unrhyw ofynion i hysbysu am safleoedd gwarchoddedig ynghyd a'r gwaith o recriwtio aelodau newydd ar gyfer y Bwrdd a'r pwyllgorau.
17. Mae Cyfreithiwr Arbenigol CNC, sy'n mynychu cyfarfodydd y Pwyllgor Ardaloedd Gwarchoddedig yn rheolaidd, yn hyddysg iawn ym musnes y pwyllgor. Gofynnwyd i'r cyfreithiwr roi'r diweddaraf i'r Pwyllgor ym mis Hydref 2022 ynglŷn â newidiadau deddfwriaethol a materion a allai fod â goblygiadau i gylch gwaith y Pwyllgor.

Papur Bwrdd

Teitl y papur:	Diweddariad Fforwm Rheoli Tir Cymru
Dyddiad y cyfarfod:	13 Gorffennaf 2022
Cyfeirnod y papur:	22-07-B13
Noddir y papur gan:	Zoe Henderson, Cadeirydd Fforwm Rheoli Tir Cymru
Paratowyd y papur gan:	Marc Williams, Cyngorydd Arbenigol: Amaethyddiaeth
Cyflwynir y papur gan:	Zoe Henderson, Cadeirydd Fforwm Rheoli Tir Cymru
Diben y papur	Gwybodaeth

Fforwm Rheoli Tir Cymru

1. Cynhelir cyfarfodydd Fforwm Rheoli Tir Cymru bedair gwaith y flwyddyn. Maent yn cynnig cyfle i Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a sefydliadau eraill sy'n aelodau o'r Fforwm rannu gwybodaeth, nodi materion sydd o ddiddordeb cyffredin a gweithio gyda'i gilydd mewn ffordd gydweithredol ar faterion strategol yn ymwneud â rheoli tir.

[Cyfoeth Naturiol Cymru / Fforwm Rheoli Tir Cymru](#)

Diweddariad

Cyfarfod 6 Mehefin 2022

2. Y llynedd, trefnwyd gweithdy'n ymwneud â thema arbennig ar gyfer Fforwm Rheoli Tir Cymru, gan ganolbwyntio ar Newid Hinsawdd. Yn sgil llwyddiant y gweithdy hwnnw, trefnwyd gweithdy arall ar gyfer y cyfarfod hwn, gan ganolbwyntio ar briddoedd fel prif thema.
3. Cafwyd amrywiaeth o gyflwyniadau a thrafodaethau gan Confor, y Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd, Undeb Amaethwyr Cymru (FUW), prosiect o dan arweiniad ffermwyr ac a ariennir gan y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth (AHDB) a'r Cyngor Ymchwil Biotechnoleg a Gwyddorau Biolegol (BBSRC), a Phrosiect PROSOILplus gan Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig (IBERS), Prifysgol Aberystwyth. Cynigiodd pob un o'r cyflwyniadau hyn safbwyntiau gwahanol, gan fynd ati hefyd i gyflwyno gwaith ymchwil diweddar a gynhaliwyd ar draws amrywiaeth o systemau rheoli tir yng Nghymru. Mae

At the end of each financial year, we report each performance position within our Annual Report and Accounts, with the final reported position for each measure reflected as green, amber or red. In that report, **Green reflects achieved target or milestone**, **Amber reflects close to target or milestone**, and **Red reflects missed target or milestone**.

Annex 2: Internal Performance Report (to Q4)

Introduction


This new Internal Performance Report gives an overview of our internal performance management.

This report reflects our latest position (Quarter 4, i.e. to the end of March 2022) in relation to measures under the following headings:

- **Financial compliance**
- **Environmental Management System** (EMS)
- **Data & information**
- **Governance**
- **Wellbeing, Health & Safety**
- **Staff, training and learning**

The year end performance position in relation to all measures is (as shown in the illustration, right):

Eight green, two amber and one red. Green reflects achieved target or milestone, Amber reflects close to target or milestone, and Red reflects missed target or milestone.



Measures to note

The following page sets out the latest high-level summary position* in relation to the headings and highlighted measures in this Internal Performance Report (see 'Remaining measures' overleaf for the full list of headings and measures not already highlighted on this page). The updates below include all measures that are red or amber.

Financial compliance:

- **Payments performance** to our suppliers is Green at year end (at 96% for March) with over 21,000 invoices processed over the year. A fantastic result, turning around the red performance of our last report, and a real achievement given the obstacles faced during the year (and the 6% increase in invoices received this year)

Environmental Management System (EMS):

- **Enforcement response** is Amber at year end, with four enforcement notices issued to NRW this year (red would be classed as over five). Any response is reviewed by relevant internal groups, and by our external auditors.
- **Non-conformity or Corrective Action Request** from internal EMS audit is Red at year end with 20 (up to twelve would be classed as green). Any raised are reported and reviewed by relevant internal groups, and by our external auditors.

Wellbeing, Health & Safety:

- **Absence** is Amber at year end (at 3.6% for March), but has reduced in the past two months (3.3% or below would achieve green). Improved reporting and support around absence is being established for managers and team leaders.

Further detail can be found on the next page for the measures not already covered above

*Overall/performance key: The overall/performance status for every measure reflects a green, amber or red state, i.e.:
Green - achieved target or milestone; Amber - close to target or milestone; Red - missed target or milestone.

Remaining measures

The following reflects the latest high-level summary performance position in relation to each measure in this Internal Performance Report (that have not already been highlighted on the previous page).

Data and information

- Information Commissioner's Office (ICO) reported incidents is Green with no such investigations ongoing at year end

Governance:

- All people working for us are required to declare where their official and/or private interests may be perceived to conflict with NRW's work. Completion of these 'Declarations of Interest' is Green at year end (i.e. at least 90%), with the relevant declaration in place for the vast majority of staff

Environmental Management System (EMS):

- Environmental Incidents is Green for the year (i.e. less than 21), with 15 reports of NRW (or contractor) related environmental incidents this year.

Wellbeing, Health & Safety:

- Health & Safety Near Misses is Green at year end with an increase on reported near misses compared with last year
- Health and Safety Active Monitoring (i.e. regular inspection and checking to ensure that wellbeing, health and safety standards are being implemented) is Green at year end, with recorded Active Monitoring events up compared with last year

Staff, training and learning:

- Personal Development Plans (PDPs) in place is Green at year end for plans being in place (green reflects 90% or higher)
- 'Mandatory E-Learning' (online training items all NRW staff are required to complete) is Green at year end (green is at least 89.5%)

Papur y Bwrdd

Dyddiad y Cyfarfod:	13.07.2022
Teitl y papur:	Rôl a gobeithion CNC ar gyfer Adolygiad Prisiau Cwmnïau Dŵr Ofwat (PR24)
Cyfeirnod y Papur:	22-07-B16
Noddir y Papur gan:	Ceri Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu
Paratowyd y Papur gan:	Natalie Hall, Rheolwr Dŵr Cynaliadwy Ruth Johnston, Cynghorydd Arbenigol Arweiniol, Strategaeth Ddŵr
Cyflwynir y Papur gan:	Sian Williams, Pennaeth Gweithrediadau Gogledd- orllewin Cymru
Diben y papur	Trafodaeth
Crynodeb	<p>Bydd buddsoddiad o filiynau o bunnoedd yn amgylchedd Cymru yn digwydd wrth i Ofwat gymeradwyo cynlluniau busnes cwmnïau dŵr drwy Adolygiad Prisiau 2024 (PR24). Mae gan CNC rôl yn y broses hon i nodi rhwymedigaethau deddfwriaethol ac amgylcheddol eraill cwmnïau dŵr ac i ddylanwadu ar raddfa a chyflymder y buddsoddiad i fodloni'r rhwymedigaethau hynny.</p> <p>Rydym am ddeall barn y Bwrdd ar rôl CNC yn Adolygiadau Prisiau Ofwat a chadarnhau a yw'r Bwrdd yn dymuno craffu ar gynigion cynlluniau busnes PR24 cwmnïau dŵr Cymru.</p>

Cefndir

- Mae cwmnïau dŵr a charthffosiaeth yn darparu gwasanaethau hanfodol i gwsmeriaid, yn cyflenwi dŵr yfed ac yn rheoli a chludo dŵr gwastraff ymaith. Mae hyn yn gwbl ddbynnol ar allu'r amgylchedd a'r gwasanaethau ecosystem sydd ar gael i ddarparu dŵr crai a derbyn dŵr gwastraff wedi'i drin. Er mwyn diwallu anghenion cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol, rhaid rheoli dŵr yn gynaliadwy er mwyn sicrhau bywydau iach,

ecosystemau gwydn a gweithgareddau economaidd gwerth uchel. Mae angen buddsoddiad sy'n cael ei ariannu drwy filiau cwsmeriaid er mwyn cefnogi datblygu, cymunedau ffyniannus ac ecosystemau iach a gwydn.

2. Ers preifateiddio'r diwydiant dŵr a charthffosiaeth yn 1989, mae fframwaith rheoleiddio wedi bod ar waith i sicrhau bod defnyddwyr yn derbyn safonau gwasanaeth o ansawdd uchel am bris teg. Bob pum mlynedd, mae Ofwat (y rheoleiddiwr economaidd) yn pennu terfynau ar brisiau biliau cwsmeriaid sy'n galluogi cwmnïau dŵr i ariannu'r gwaith o ddarparu gwasanaethau i gwsmeriaid, yn unol â safonau a gofynion amgylcheddol perthnasol. Bydd cwmnïau dŵr yn cyflwyno eu cynlluniau busnes (yn cwmpasu 2025 i 2030) i Ofwat erbyn 2 Hydref 2023. Bydd penderfyniad Ofwat ar gynlluniau busnes cwmnïau dŵr, a'r biliau i gwsmeriaid a lefelau buddsoddi dilynol, yn dod i ben ym mis Rhagfyr 2024.
3. Mae ein hamgylchedd dŵr a'r ffordd rydym yn ei ddefnyddio yn destun sylw'r cyhoedd a gwleidyddion. Mae Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru yn pennu'r angen am welliannau o ran ansawdd dŵr a mwy o ddefnydd o'n dyfroedd ar gyfer hamdden. Ac eto, mae materion fel lefelau ffosffad mewn dalgylchoedd Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) ac amllder gorlifo i afonydd yn dangos bod y systemau hyn eisoes yn dioddef effeithiau. Bydd newid hinsawdd yn cynyddu'r pwysau hwn, yn enwedig o ran argaeledd cyflenwadau dŵr. Bydd hyn yn effeithio ar gwsmeriaid, ond hefyd ar ansawdd dŵr oherwydd llai o allu i wanhau gollyngiadau a thymheredd dŵr uwch.
4. Arweiniodd adolygiadau prisiau Ofwat at fuddsoddiad ar gyfer gwelliannau amgylcheddol o oddeutu £200 miliwn yn PR14 a £250 miliwn yn PR19, a hynny ar ben costau llinell sylfaen a chynnal a chadw cwmnïau dŵr yng Nghymru. Mae potensial i PR24 wireddu'r un lefel o fuddsoddiad neu hyd yn oed fwy.

Beth sy'n newydd yn PR24?

5. Roedd adolygiadau prisiau blaenorol yn canolbwyntio ar gyfnod o bum mlynedd yn unig. Ar gyfer PR24, mae Ofwat yn disgwyl i gwmnïau gynllunio ar gyfer y tymor hwy gyda 2050 fel gorwel i'r cynlluniau. Diben hyn yw sicrhau buddsoddiad strategol hirdymor, caniatáu dulliau gweithredu sy'n seiliedig ar ddalgylchoedd ac osgoi gwariant tymor byr sy'n achosi asedau diangen. Ar gyfer PR24, mae'n rhaid i gwmnïau dŵr ddarparu cynllun busnes wedi'i gostio'n llawn ar gyfer 2025-2030, cynllun gydag amlinelliad o gostau ar gyfer 2030-2035 a chynllun amlinellol ar gyfer 2035-2050.

Rhwymedigaethau amgylcheddol

6. Fel rhan o'r adolygiad prisiau, rydym yn gweithio gyda phob cwmni dŵr i nodi eu rhwymedigaethau i gydymffurfio â deddfwriaeth a pholisi amgylcheddol o fewn Rhaglen Amgylcheddol Genedlaethol a disgwyliadau ehangach. Mae llawer o'r rhwymedigaethau hyn yn seiliedig ar ddeddfwriaeth y DU gyfan a deddfwriaeth sy'n benodol i Gymru, megis Rheoliadau Dyfroedd Ymdrochi 2013, Rheoliadau Cynefinoedd 2017 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, gyda llawer o'r rhain yn deillio o Gyfarwydddebau Ewropeaidd.

Cyfeiriad strategol

7. Mae Datganiad Polisi Strategol Llywodraeth Cymru i Ofwat yn egluro polisiâu a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru y mae angen i Ofwat eu hystyried wrth ddatblygu ei ddull o ymdrin â PR24. Gosodwyd y datganiad hwn yn y Senedd ar 5 Gorffennaf 2022.
8. Mae Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru yn cynnwys ffocws penodol ar ansawdd dŵr a manteision llesiant y mae amgylchedd dŵr yn gallu eu cynnig i gymdeithas, gydag ymgyrch i ddynodi dyfroedd hamdden. Daw hyn ar adeg pan mae ansawdd dŵr yng Nghymru yn destun mwy o ymwybyddiaeth a chraffu. Mae pwysau ar gwmnïau dŵr, CNC, Ofwat a Llywodraeth Cymru i wneud mwy i wella ansawdd afonydd.
9. Mae ein Cadeirydd wedi cyfarfod â'r Gweinidog sawl gwaith ers mis Mai i drafod ei blaenoriaethau, y Rhaglen Lywodraethu, a'i disgwyliadau o ran CNC. Mae rhai o'r sgysiau hyn wedi canolbwyntio'n benodol ar ei blaenoriaethau ar gyfer dŵr yng Nghymru. Cadarnhawyd mai'r blaenoriaethau yw gwella cydymffurfiaeth â Rheoliadau'r Amgylchedd Dŵr (Y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr) (Cymru a Lloegr) 2017, gwella ansawdd afonydd ACA (a helpu i ddatod y cyfyngiadau presennol ar geisiadau cynllunio), cyflawni ymrwymïadau yn erbyn y Map Gorlif Stormydd, a dynodi dyfroedd hamdden mewndirol newydd.
10. Mae'r Cadeirydd wedi ategu ein hymrwymiad i wella ansawdd dŵr, ond ar yr un pryd mae hefyd wedi hysbysu'r Gweinidog y bydd angen trafodaethau pellach ynghylch cyllid os ydym am gyflawni mwy na'r hyn rydym wedi ymrwymo i'w wneud eisoes. Mae'n werth nodi hefyd bod ymateb y Gweinidog i adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith ar Orlif Stormydd yn glir ynghylch yr angen i ystyried y goblygiadau ariannol sydd ynghlwm wrth ddull gweithredu gwell.
11. Mae'r Prif Weinidog a'r Gweinidog Newid Hinsawdd yn ystyried ansawdd dŵr yng Nghymru yn flaenoriaeth bwysig. Bydd y Prif Weinidog yn datblygu'r drafodaeth drwy gynnal Uwchgynhadledd yn Sioe Frenhinol Cymru ar 18 Gorffennaf 2022, gan edrych ar broblem ffosffad mewn afonydd ACA mewn perthynas â'r cyfyngiad presennol ar geisiadau cynllunio ac adeiladu tai. Er y bydd hyn yn cynnwys nifer o randdeiliaid allweddol eraill, bydd ffocws ar y cysylltiad rhwng ansawdd dŵr a chynllunio datblygu, ac mae'n anochel y bydd hyn yn cynnwys effaith gweithgareddau cwmnïau dŵr ar ansawdd dŵr.

Llywodraethu

12. Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu Fforwm PR24. Rôl y Fforwm yw sicrhau dull cydweithredol ymhlith y Llywodraeth, rheoleiddwyr (h.y. CNC, Arolygiaeth Dŵr Yfed, Ofwat), cwmnïau dŵr a rhanddeiliaid ehangach yng Nghymru er mwyn arwain a llywio'r gwaith o ddatblygu Strategaethau Cyflawni Hirdymor a Chynlluniau Busnes PR24 cwmnïau dŵr.

13. Yn fewnol, yr is-grŵp tir a dŵr cynaliadwy (SLWSG) sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan fwydo gwybodaeth i'r Bwrdd Busnes Rheoleiddio (RBB) a'r Bwrdd Busnes Rheoli Adnoddau Naturiol (NRMBB).
14. Oherwydd natur proffil uchel y gwaith hwn a'r cyfle y mae'n ei gynnig i fuddsoddi mewn gwelliannau ansawdd dŵr yng Nghymru, mae lle i rôl ar gyfer Bwrdd CNC.

Ein dull arfaethedig o ymdrin â PR24

15. Mae'r meysydd gwaith eang sydd eu hangen i gyflawni ein rôl yn PR24 fel a ganlyn.
 - a. Cydweithio ag Ofwat, Llywodraeth Cymru, cwmnïau dŵr, Asiantaeth yr Amgylchedd, Natural England ac (os oes angen) rhanddeiliaid eraill i ddylanwadu ar bolisïau, canllawiau a phenderfyniadau. Mae hyn yn cynnwys cymryd rhan yn Fforwm PR24 Llywodraeth Cymru ac ymateb i nifer o ymgynghoriadau a gofynion Ofwat.
 - b. Nodi ein disgwyliadau hirdymor i weledigaeth 2050 i roi gwybod i eraill am yr hyn rydym eisiau ei gyflawni dros Gymru.
 - c. Sefydlu'r rhwymedigaethau statudol i gwmnïau dŵr gyflawni yn eu cynlluniau busnes drwy gyfres o ddogfennau sbarduno a chanllawiau (os oes eu hangen).
 - d. Cydweithio ar y Rhaglen Amgylcheddol Genedlaethol sy'n manylu ar y gofynion dŵr a dŵr gwastraff (gall y rhain fod yn benodol i Gymru gyfan neu'n benodol i'r safle).
 - e. Ochr yn ochr â hyn, rydym yn ceisio rhoi'r cyfrifoldeb uniongyrchol ar y cwmnïau dŵr i ddatblygu eu cynlluniau, gyda CNC yn cynnig sylwadau arnynt a'u herio. Manteision y dull hwn o weithredu yw:
 - i. mae'n sicrhau perchnogaeth ac atebolrwydd cwmnïau dros wneud yn siŵr eu bod yn buddsoddi i gyflawni eu rhwymedigaethau statudol ac amgylcheddol ehangach
 - ii. mae'n golygu llai o ddefnydd ar adnoddau CNC
 - iii. mae'n llai gwrthwynebus, gan greu dull sy'n dibynnu mwy ar ymddiriedaeth yn hytrach na pherthynas rhiant a phlentyn
 - iv. mae'n sicrhau mai'r cwmnïau dŵr sy'n wynebu unrhyw risgiau ynghlwm wrth fethu â chwmpasu gofynion yn unol â'n disgwyliadau.
 - f. Rydym hefyd yn awyddus i osgoi sefyllfa lle mae datblygiadau cynlluniau buddsoddi cwmnïau dŵr yn digwydd mewn ffordd ynysig sy'n atal nodi cyfleoedd i gydweithio rhwng dalgylchoedd ac atebion integredig. Rydym eisiau iddynt fynd ar drywydd dulliau arloesol, sy'n edrych ar achosion sylfaenol problemau, yn datblygu gwydnwch ac yn chwilio am atebion sy'n sicrhau manteision ehangach.
 - g. Rydym yn rhoi pwysau ar gwmnïau i leoli eu cynigion o fewn ystod lawn yr her buddsoddi.
 - h. Rydym yn ceisio dylanwadu i wneud yn siŵr bod buddsoddiad yn digwydd nawr, yn hytrach na gohirio talu amdano a gadael i genedlaethau'r dyfodol wynebu'r costau.
 - i. Rydym yn rhoi pwysau arnynt i gydnabod bod graddfa'r buddsoddiad yn ystyried yr angen iddynt ymateb i'r Argyfyngau Hinsawdd a Natur.

Amserlen

16. Ar 20 Gorffennaf, bydd CNC yn cynnig cyflwyniad i Fforwm PR24 ar y deilliant a ddeisyfir, o ran yr Amgylchedd a gan y Rhaglen Amgylcheddol Genedlaethol, yn ogystal â'r deilliant a ddeisyfir o ran buddsoddiad sero net ac ymaddasu i'r hinsawdd.
17. Datganiad Polisi Strategol Llywodraeth Cymru i Ofwat a osodwyd yn y Senedd ar 5 Gorffennaf 2022, i sicrhau bod safbwynt polisi Llywodraeth Cymru yn rhan o ystyriaethau Ofwat ar gyfer yr adolygiad prisiau.
18. Cyhoeddi methodoleg ddrafft PR24 Ofwat ar 7 Gorffennaf 2022.
19. Cadarnhau Rhaglen Amgylcheddol Genedlaethol Cymru CNC ar 31 Mawrth 2023.
20. Cwmnïau dŵr yn cyflwyno cynlluniau busnes ar gyfer penderfyniad Ofwat ar 2 Hydref 2023.
21. Penderfyniad Ofwat ar derfynau prisiau dŵr ym mis Rhagfyr 2024.

Y camau nesaf

22. Mae'n bosibl y bydd y Bwrdd eisiau rôl sy'n craffu ar y cyfeiriad y mae'r cwmnïau dŵr yn ei gynnig ar gyfer amgylchedd Cymru, ac yn ei herio. Er mwyn gwneud hyn, gellid gwahodd y cwmnïau dŵr i gyflwyno eu cynllun busnes a'u cynigion cyfeiriad strategol ar gyfer Cymru i Fwrdd CNC yn ystod hydref 2022. Byddem hefyd yn gwahodd Gwenllian Roberts (Cyfarwyddwr Ofwat yng Nghymru) i gefnogi'r Bwrdd i ddeall ystyriaethau cost a sut mae Ofwat yn penderfynu'n derfynol ar brisiau.
23. Os bydd y Bwrdd yn cytuno, byddwn yn ymgysylltu â'r cwmnïau dŵr i gadarnhau'r cais ac i sicrhau'r dyddiad ar gyfer sesiwn graffu.

Argymhelliad

24. Sesiwn Bwrdd CNC i gwmnïau dŵr Cymru gyflwyno eu cynigion cynllun busnes drafft i'w trafod yn ystod hydref 2022. Gwahodd Cyfarwyddwr Ofwat Cymru Gwenllian Roberts i fynychu.
25. Os oes angen, sesiwn arall cyn cyflwyno cynlluniau busnes y cwmnïau dŵr i Ofwat ym mis Hydref 2023.

Papur Bwrdd CNC

Dyddiad y Cyfarfod:	13 Gorffennaf 2022
Teitl y papur:	Y diweddaraf am Waith Ansawdd Dŵr â Blaenoriaeth
Cyfeirnod y Papur:	22-07-B17
Noddir y Papur gan:	Ceri Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu
Paratowyd y Papur gan:	Siân Williams, Pennaeth Gweithrediadau
Cyflwynir y Papur gan:	Siân Williams, Pennaeth Gweithrediadau
Diben y papur	Gwybodaeth
Crynodeb	Mae hwn yn bapur dilynol ar ôl trafodaethau blaenorol y Bwrdd, i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am y cynnydd yn nifer o feysydd gwaith ansawdd dŵr â blaenoriaeth

Cefndir

1. Mae ansawdd dŵr yn un o'r pum maes blaenoriaeth ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru, fel y cytunwyd gyda'r Gweinidog. Mae'r flaenoriaeth hon yn cwmpasu maes eang o waith CNC gan gynnwys ansawdd dŵr afonydd, rheoli tir, adfer, pysgodfeydd, gorlif carthffosydd cyfun, bioamrywiaeth, adnoddau dŵr a mwy.
2. Mewn cyfarfodydd diweddar gyda'r Gweinidog, mae wedi mynegi ei diolch am yr ymdrechion sy'n cael eu gwneud ar bob lefel, ac ymrwymiad CNC i flaenoriaethu'r gwaith hwn.
3. Mae'r Bwrdd wedi cytuno ar flaenoriaeth strategol newydd ar gyfer 2022/2023 sef gwella ansawdd dŵr, drwy hybu ymwybyddiaeth y cyhoedd gan ddefnyddio ein pwerau rheoleiddio a gorfodi yn effeithiol a sbarduno cydweithio ag eraill, er mwyn lleihau'r effeithiau ar fioamrywiaeth ac iechyd pobl, gan gynnwys effeithiau arferion amaethyddol a rheoli tir. Mae hyn yn sicrhau bod Ansawdd Dŵr ar flaen ein meddyliau i gyd.

4. Diben y papur hwn yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am yr holl weithgareddau gwahanol rydym yn ymwneud â hwy ar Ansawdd Dŵr, ein cynnydd hyd yma a'r hyn fydd yn digwydd nesaf.

Cytundeb Lefel Gwasanaeth

5. Fel gyda meysydd gwaith eraill, rydym wedi bod yn gweithio'n galed i ddatblygu ein cynigion lefel gwasanaeth yn barod ar gyfer trafodaethau gyda thîm Nawdd Llywodraeth Cymru.
6. Mae'n amlwg iawn nad yw'r adnoddau angenrheidiol ar gael ar hyn o bryd i fodloni uchelgais Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Gweinidogion. Byddwn felly'n parhau i weithio'n agos gyda chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru i gytuno ar lefelau'r gwasanaeth y gallwn ei ddarparu, ac i flaenoriaethu ein gwaith hyd nes y daw'r trafodaethau ar y Cytundeb Lefel Gwasanaeth i ben.
7. Er mwyn cyflawni'r isafswm sy'n ofynnol bellach, rydym yn amcangyfrif bod angen 44 o Benodiadau Cyfnod Penodol ychwanegol, wedi'u gwasgaru ar draws yr adran Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu a'r adran Gweithrediadau.
8. Rydym wedi cytuno'n ddiweddar i ariannu 26 o'r swyddi hyn er mwyn mynd i'r afael â blaenoriaethau megis Map Gorlif Stormydd, Cyfathrebu, Adolygiad Prisiau 24 (PR24), Afonydd Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) ac ymchwiliadau'r Gyfarwydeb Fframwaith Dŵr, drwy gymysgedd o ailbennu blaenoriaethau, goramserlennu, swyddi wedi'u hariannu gan referniw Llywodraeth Cymru a symud arian o fannau eraill (e.e. Teithio a Chynhaliath) yn yr adran Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu a'r adran Gweithrediadau ar gyfer y flwyddyn ariannol hon. Byddwn yn dechrau recriwtio cyn gynted â phosibl.
9. Swyddi dros dro fydd y rhain, a fydd yn ein helpu yn y tymor byr, ond nid ydynt yn gynaliadwy yn y tymor hwy gan ein bod yn creu effeithiau o ran adnoddau ac ariannu gwaith blaenoriaeth mewn meysydd eraill.
10. Drwy'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth, byddwn hefyd yn ystyried sut y byddwn yn blaenoriaethu ein gwaith os na fyddwn yn llwyddo i gael arian ychwanegol. Mae'r gwaith hwn yn parhau.

Adolygiad mewnol o waith Ansawdd Dŵr

11. Yn flaenorol, nodwyd bod angen i ni adolygu ein blaenoriaethau a'n dull o ddarparu Ansawdd Dŵr yn CNC. Ymateb yw hynny i'r pwysau cynyddol i wneud mwy, i roi gwybod am yr hyn rydym yn ei wneud, ac i wneud hynny o fewn y cyfyngiadau cyllid sydd ar gael i ni, wrth gwrs.
12. Rydym wedi nodi angen i wneud dau brif beth:
 - a) Cyfuno'r holl waith sy'n canolbwyntio ar Ansawdd Dŵr sy'n cael ei wneud gennym mewn un Rhaglen.

- b) Adolygu'r holl waith Ansawdd Dŵr rydym yn ei wneud, a herio ein hunain ynghylch a yw hynny'n cyflawni'r hyn sydd ei angen, neu a oes raid i ni wneud pethau'n wahanol.

Mae angen i hyn oll gydweddu â'r gwaith Cytundeb Lefel Gwasanaeth a'i ategu.

13. Nodwyd hefyd yr angen am arbenigwr cyfathrebu penodol ar gyfer y gwaith hwn, a byddwn yn ariannu swydd dros dro ar gyfer cyfathrebu Ansawdd Dŵr tan ddiwedd y flwyddyn ariannol hon, pan fydd y swydd yn cael ei hadolygu. Dyma un o'r 26 swydd y cyfeirir atynt ym mharagraff 8.
14. Mae Atodiad 1 yn dangos y strwythur y byddwn yn ei fabwysiadu ar gyfer y ddwy elfen hyn o'r gwaith rydym wedi cytuno i'w hariannu (o dan baragraff 8 uchod). Y cam nesaf yw symud ymlaen i gyflawni'r gwaith hwn, naill ai drwy ddefnyddio gweithwyr presennol, recriwtio neu ddefnyddio contractwyr allanol arbenigol. Noder ei bod yn annhebygol y bydd y dyddiad arfaethedig ar gyfer cam cyntaf yr adolygiad (sef diwedd Gorffennaf) yn cael ei fodloni. Bydd rhagor o wybodaeth am y camau nesaf a'r amserlen ar gael erbyn cyfarfod y Bwrdd a byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf yno. Y flaenoriaeth yw cwblhau'r gwaith hwn cyn gynted â phosibl.

Tasglu Ansawdd Afonydd Gwell

15. Bydd y Cynlluniau Gweithredu Gorlif Stormydd, sy'n manylu ar sut y bydd pob sefydliad partner yn cyflawni eu hymrwymadau o dan y Map, yn cael eu lansio ar 5 Gorffennaf. Bydd y lansiad yn cynnwys datganiad ysgrifenedig gan y Gweinidog, a disgwyliwn rywfaint o sylw yn y cyfryngau o gwmpas y dyddiad hwnnw.
16. Y sefydliadau partner yw: Llywodraeth Cymru, CNC, Dwr Cymru, Hafren Dyfrdwy, Ofwat, Afonydd Cymru a'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr (CCW).
17. Bydd y cynlluniau ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru, a'r cam nesaf yw i'r holl bartneriaid weithio i gyflawni'r ymrwymadau a wnaed.
18. Rydym yn falch iawn o'r cydweithio a'r gwaith a wnaed hyd yn hyn, ac yn ddiolchgar am y gefnogaeth gan y Cadeirydd a'r Bwrdd i alluogi hynny i ddigwydd.
19. Mae potensial i ehangu'r Tasglu yn y dyfodol, i gynnwys cylch gwaith ehangach na Gorlif Stormydd a sefydliadau partner eraill. Fodd bynnag, mae'r ffocws ar hyn o bryd ar gyflawni cynlluniau gweithredu Gorlif Stormydd.

Y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr

20. Bydd Cynlluniau Rheoli Basn Afon ar gyfer afon Dyfrdwy a Gorllewin Cymru yn cael eu cyhoeddi yn ystod yr wythnos sy'n dechrau ar 18 Gorffennaf. (Asiantaeth yr Amgylchedd sy'n arwain ar afon Hafren a chaiff y cynllun perthnasol ei gyhoeddi yn ddiweddarach yn y flwyddyn).
21. Mae'r rhain yn garreg filltir bwysig ac yn rhoi ffocws clir i'n gwaith am y 6 blynedd nesaf.

22. Ni allwn gyflawni'r camau gweithredu ynddynt ar ein pen ein hunain, felly mae'n bwysig i ni barhau i ddatblygu'r dull partneriaeth cadarn sydd ar waith eisoes, ac ehangu hynny i ymateb i heriau'r presennol a'r dyfodol o fewn y Cynlluniau Rheoli Basn Afon ac mewn mannau eraill.

Perfformiad Blynyddol Cwmnïau Dŵr

23. Bydd Adroddiadau Perfformiad Blynyddol y Cwmnïau Dŵr yn cael eu cyhoeddi ar 8 Gorffennaf. Bu'r cyfryngau yn dangos cryn ddiddordeb mewn Cwmnïau Dŵr a'u heffaith ar yr amgylchedd, ac yn ddi-os bydd yr adroddiadau'n ennyn sylw a chraffu pellach.

24. Bydd llawer o'r sylw ar adroddiad Dŵr Cymru, wrth i'r cwmni ddisgyn o bedair seren i dair. Gostyngodd eu perfformiad oherwydd tri digwyddiad llygredd difrifol, gostyngiad yn lefelau hunangofnodi digwyddiadau a gostyngiad o ran cydymffurfiaeth â'r terfynau rhifol a osodi ar gyfer rhyddhau.

25. Rydym eisiau i Dŵr Cymru wella eu perfformiad a disgwylw'n iddynt roi cynlluniau ar waith i sicrhau bod hyn yn digwydd.

26. Rydym yn siomedig iawn yn y gostyngiad hwn yn lefel perfformiad y prif gwmni dŵr yng Nghymru. Mae hynny wedi'i gyfleu gan ein Cadeirydd, ein Prif Weithredwr ac yn y cyfarfod adolygu perfformiad pedeir-rhan a gynhaliwyd yr wythnos diwethaf.

27. Mae hyn yn amlwg yn destun pryder i ni, a disgwylw'n i Dŵr Cymru wneud yn well. Yn yr un modd, rydym wedi gweld dirywiad ym mherfformiad amgylcheddol Hafren Dyfrdwy a byddwn yn pwysu arnynt hwy i gyflawni gwelliannau yn ystod y misoedd nesaf.

28. Rydym wrthi'n cynllunio ar gyfer yr Adolygiad Cyfnodol nesaf o Fuddsoddiad Cwmnïau Dŵr, a bydd hyn yn cael ei drafod fel eitem ar wahân yn y cyfarfod hwn.

Afonydd ACA

29. Rydym wedi bod yn gweithio ar fynd i'r afael â'r sylwadau a wnaed ynghylch y cyngor diwygiedig i awdurdodau cynllunio (fersiwn 3) gan aelodau Is-grŵp Cynllunio Cymru. Caiff ei gyflwyno i Fwrdd Prosiect Afonydd ACA i'w gymeradwyo'n derfynol, ei gyfieithu a'i gyhoeddi ar y we.

30. Mae ein timau Gwasanaeth Cynghori Cynllunio Dewisol yn parhau i dderbyn lefel uchel o ymgynoriadau gwaith achos ar ddatblygiadau gyda materion cynllunio sy'n gysylltiedig â ffosforws. Rydym wedi drafftio egwyddorion niwtraliaeth maethynnau a fydd yn cael eu cyhoeddi ar ein gwefan unwaith y byddant wedi'u cymeradwyo. Rydym hefyd wedi penodi contractwyr i ddatblygu canllawiau CNC i staff ar ddefnyddio Cyfrifianellau Maethynnau. Mae'r rhain yn meddu ar y potensial i fod yn arf gwerthfawr wrth gynllunio datblygu, yn enwedig ar lefel Cymru, er bod yn rhaid sefydlu fframwaith addas i sicrhau eu bod yn effeithiol a'u bod yn gallu darparu'r ymyriadau cywir i leihau llygredd ffosforws.

31. Rydym hefyd yn gweithio gyda rhanddeiliaid lleol i ddatblygu Byrddau Rheoli Maetholion ar gyfer pob dalgyrch afon ACA, lle gellir nodi a darparu cyfleoedd ar gyfer

ymyriadau lleol a strategol i wella ansawdd dŵr. Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf ar gyfer Byrddau Rheoli Maetholion Cleddau, Teifi a Tywi ganol mis Mawrth a bydd Partneriaeth Dalgylch y Wysg yn cyfarfod ym mis Gorffennaf.

32. O ran ein tystiolaeth a'n gwaith monitro, gosodwyd sondiau yn afon Gwy sy'n cael eu profi ar hyn o bryd. Mewn perthynas â rheoleiddio, rydym yn dal ati i weithredu 'dim ffosffad ychwanegol' fel safbwynt trwyddedu dros dro ar gyfer unrhyw ACA sy'n methu. Bwriedir cynnal adolygiadau o drwyddedau uchafswm gollyngiadau i afonydd ACA (dros 20m³/diwrnod) yn ddiweddarach eleni, ac rydym yn bwriadu rhannu gwybodaeth o ran amddiffyniad digonol ACA dan drwyddedau gorsafoedd trin gwastraff presennol cyn gynted â phosibl. Mae hyn yn dibynnu ar CNC yn gwirio gwaith dosrannu ffynhonnell Dŵr Cymru.
33. Dyrannwyd adnodd ychwanegol (sydd wedi'i gynnwys ym mharagraff 8) i Brosiect Afonydd ACA er mwyn hwyluso'r gwaith o gynhyrchu'r cyngor a'r arweiniad sydd eu hangen i fynd i'r afael â rhai o'r problemau. Mae recriwtio ar y gweill ar gyfer y swyddi hyn.
34. Rydym wedi adolygu amcanion, strwythur a risgiau'r prosiect yn ogystal â'r cynhyrchion ar gyfer y ffrydiau gwaith. Mae hyn yn cynnwys ffrwd waith newydd ar ddeunyddiau i'r tir. Cynhaliwyd gweminarau staff i hysbysu gwaith y prosiect yn well gan gynnwys un ar y Byrddau Rheoli Maetholion ym mis Mehefin.

Uwchgynhadledd Sioe Frenhinol Cymru

35. Mewn ymateb i bryderon ynghylch cyfyngiadau cynllunio yn Nalgylchoedd Afonydd ACA, bydd y Prif Weinidog yn cynnal Uwchgynhadledd ar faes Sioe Frenhinol Cymru ar 18 Gorffennaf.
36. Cynhelir sesiwn sy'n canolbwyntio ar ddŵr ar stondin CNC cyn hynny, lle byddwn yn arddangos enghreifftiau o'n llwyddiannau wrth fynd i'r afael â materion ansawdd dŵr yng Nghymru. Disgwylir i'r Gweinidog fynychu'r sesiwn hon.
37. Byddwn hefyd yn cynnal digwyddiad "ymylol" i'r rhai nad ydynt yn gallu mynychu'r Uwchgynhadledd oherwydd niferoedd cyfyngedig, a hynny ar ôl yr Uwchgynhadledd ei hun.
38. Rydym yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr Llywodraeth Cymru i baratoi pecynnau tystiolaeth ar gyfer pawb sy'n mynychu.
39. Mae'n bwysig bod yr Uwchgynhadledd hon yn ddechrau rhywbeth, nid digwyddiad untro. Hoffem weld strwythur Llywodraethu newydd yn cael ei ddatblygu gyda goruchwyliaeth Weinidogol, gan na all Cyfoeth Naturiol Cymru sbarduno'r newidiadau sydd eu hangen ein hunain.

Blaenoriaethau'r dyfodol

40. Rydym yn ymateb i geisiadau penodol gan y Bwrdd i ystyried materion a blaenoriaethau newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg. Yn arbennig:

1. Gofynnodd y Bwrdd i ni ddatblygu dull Gwyddoniaeth Dinasyddion. Mae hyn yn cael ei arwain gan y tîm Tystiolaeth, ac mae gwaith ar y gweill. Byddwn yn diweddarau'r wybodaeth mewn cyfarfod i ddod.
2. Rydym wedi dechrau trafodaethau gyda chynrychiolwyr y Coleg Fferyllol Brenhinol yng Nghymru, Dŵr Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru ac eraill ynghylch y dystiolaeth bresennol a blaenoriaethau ar gyfer monitro yn y dyfodol i asesu graddau ymwrthedd gwrthficrobaidd a fferyllol eraill mewn dŵr yfed ac yn yr amgylchedd yng Nghymru. Mae'r gwaith hwn yn y cyfnod cynnar, ond mae ein blaenoriaethau o ran tystiolaeth amgylcheddol yn cysylltu'n agos â'r flaenoriaeth Iechyd i leihau effaith cynhyrchion fferyllol ar yr amgylchedd. Darperir diweddariadau pellach wrth i'r gwaith fynd rhagddo.


Mesurau Perfformiad CNC

Paratowyd y papur hwn cyn i'r data perfformiad fod ar gael. Y gobaith yw y gallwn ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf yng nghyfarfod y Bwrdd.

Atodiad 1

Strwythur arfaethedig ar gyfer adolygiad Ansawdd Dŵr

Annex 1 Proposed structure for Water Quality review





Bwrdd CNC

Dyddiad y cyfarfod 13/07/2022

Teitl y Papur **Cynllun gweithredu CNC mewn ymateb i argymhellion y Grŵp Cynghori ar Adar sy'n Bwyta Pysgod**

Cyfeirnod y Papur 22-07-B19

Noddir y papur gan Ceri Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu

Papur wedi'i baratoi gan

Patrick Lindley, Cynghorydd Arbenigol Arweiniol – Adareg Ddaearol
Dave Mee, Cynghorydd Arbenigol Arweiniol – Rheoli Pysgodfeydd Dŵr Croyw
Ben Wilson, Prif Gynghorydd, Pysgodfeydd
Sarah Wood, Rheolwr Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau
Adam Cole-King, Cynghorydd Arbenigol Arweiniol – Polisi Bioamrywiaeth
Richard Facey, Cynghorydd Arbenigol – Adareg Ddaearol
Iwan Hughes, Arweinydd Tîm, Trwyddedu Rhywogaethau a Charbon
Andy Robinson, Arweinydd Tîm - Pobl a Lleoedd
Ian Williams, Arweinydd Tîm - Trwyddedu Rhywogaethau

Cyflwynwyd y papur gan Ben Wilson, Prif Gynghorydd, Pysgodfeydd

Diben y papur **Cymeradwyo**

Mae'r papur hwn yn cyflwyno camau gweithredu arfaethedig CNC mewn ymateb i argymhellion y Grŵp Cynghori ar Adar sy'n Bwyta Pysgod ar sut y gellir diogelu pysgodfeydd a stociau pysgod sy'n agored i niwed rhag pwysau ysglyfaethu, gan barhau i warchod adar sy'n bwyta pysgod.

Gofynnir i'r Bwrdd:

Crynodeb

- **Cymeradwyo** ein dull gweithredu arfaethedig fel ymateb ystyriol i argymhellion y Grŵp Cynghori ar Adar sy'n Bwyta Pysgod.
- **Cymeradwyo'r** dull gweithredu a argymhellir gennym - **Opsiwn 3** yn amodol ar sicrhau cyllid ychwanegol ar gyfer gwaith sydd angen ei wneud.
- **Cymeradwyo'r** camau nesaf arfaethedig.

Cefndir

1. Mae CNC, ynghyd â llawer o sefydliadau ac unigolion eraill, yn pryderu'n fawr am y gostyngiad yn niferoedd eogiaid yr Iwerydd *Salmo salar* a brithyllod môr *Salmo trutta*, a chyflwr bregus stociau'r pysgod hyn yng Nghymru. Ar hyn o bryd rydym yn cynnal asesiadau stoc blynyddol ar gyfer 23 o brif afonydd eogiaid a 33 o brif afonydd brithyllod môr, yn ogystal â monitro poblogaethau pysgod ifanc ledled Cymru.
2. Mae CNC wedi ymrwymo i weithredu ei Gynllun Gweithredu Eogiaid a Brithyllod Môr i fynd i'r afael â'r pwysau ar boblogaethau eogiaid a brithyllod môr, gan gynnwys rheoliadau rheoli dalfeydd, adfer cynefinoedd afonydd, canolbwytio o'r newydd ar reoli ansawdd dŵr, ac adolygiad o ysglyfaethu gan adar sy'n bwyta pysgod, yn benodol mulfrain *Phalacrocorax carbo* a hwyaid danheddog *Mergus merganser*. Hefyd, rydym yn cwblhau neu'n comisiynu gwaith ymchwil ychwanegol ar bysgodfeydd i ddeall y pwysau ar y stociau hyn, gan gynnwys ysglyfaethu. Hefyd, Cynllun Gweithredu Eogiaid a Brithyllod Môr yw sylfaen rhwymedigaethau Cymru i Sefydliad Cadwraeth Eogiaid Gogledd yr Iwerydd (NASCO).
3. Mae gwaith ymchwil sylweddol wedi'i wneud yn y DU ac yn rhyngwladol i effeithiau adar sy'n bwyta pysgod, yn enwedig mulfrain a hwyaid danheddog, ar bysgodfeydd, a'r strategaethau posibl ar gyfer lliniaru a rheoli'r effeithiau hyn.
4. Mae gwrthdaro rhwng adar sy'n bwyta pysgod, poblogaethau pysgod a physgodfeydd yn gymhleth ac mae'n effeithio ar ystod o sectorau bysgodfeydd ar hyd sbectrwm eang o gynefinoedd dyfrol naturiol, lled-naturiol ac artiffisial. Maent yn agored i newid oherwydd ffactorau fel dynameg poblogaeth adar a physgod, newidiadau gofodol a thymhorol mewn pwysau ysglyfaethu, amrywiadau mewn ffactorau allanol, yn enwedig amodau hinsoddol, a chanfyddiadau rhanddeiliaid.
5. Mae eogiaid yr Iwerydd a brithyll môr mewn afonydd yng Nghymru yn cael eu diogelu gan amrywiaeth o ddeddfau Cymru, y DU ac Ewrop er mwyn sicrhau'r canlyniadau priodol ar gyfer diogelu'r amgylchedd yng Nghymru a Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy, gan gynnwys cynaliadwyedd a chynhyrchiant stociau eogiaid a brithyllod môr. Mae Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 yn darparu fframwaith cyfreithiol yng Nghymru ar gyfer diogelu adar gwyllt (gan gynnwys mulfrain a hwyaid danheddog), eu hwyau a'u nythod. Hefyd, mae'n darparu'r fframwaith i CNC ar gyfer rhoi trwyddedau sy'n caniatáu lladd neu gymryd adar gwyllt. Nid yw mulfrain a hwyaid danheddog wedi'u rhestru mewn trwyddedau cyffredinol yng Nghymru a rhaid cael trwydded benodol i'w rheoli'n gyfreithiol. Rhaid cyflwyno ceisiadau yn unigol i'w penderfynu gan CNC.
6. Ar gyfartaledd, mae CNC yn derbyn 20 cais y flwyddyn am drwyddedau penodol i reoli mulfrain a hwyaid danheddog yng Nghymru. Mae'r rhan fwyaf o'r ceisiadau hyn yn llwyddiannus ac mae trwyddedau'n cael eu rhoi yn unol ag ystod o amodau, gan gynnwys pennu uchafswm yr adar y gellir eu lladd. Mae trwyddedu penodol ar gyfer dulliau angheuol o reoli adar gwyllt yn ddull adweithiol o fynd i'r afael â gwrthdaro rhwng pobl a bywyd gwyllt a rhwng bywyd gwyllt ei hun, sef yn yr achosion hyn, pwysau gan adar sy'n bwyta pysgod mewn bysgodfeydd dŵr llonydd â stoc pysgod ac ar boblogaethau eogiaid gwyllt.

7. Ar hyn o bryd, nid yw CNC yn cynnal nac yn hwyluso unrhyw fesurau rheoli ysglyfaethwyr rhagweithiol i ddiogelu pysgodfeydd wedi'u stocio na phoblogaethau pysgod gwyllt.
8. O ganlyniad i bryderon a fynegwyd gan y sector pysgota mewn perthynas ag effaith adar sy'n bwyta pysgod ar bysgodfeydd gwyllt a physgodfeydd wedi'u stocio, penderfynodd CNC sefydlu Grŵp Cynghori annibynnol ar Adar sy'n Bwyta Pysgod (Grŵp Cynghori)¹ yn 2020. Roedd y Grŵp Cynghori hwn yn dibynnu ar gydweithio cadarn rhwng unigolion a sefydliadau sydd â safbwyntiau gwahanol. Prif ddibenion y Grŵp Cynghori oedd cefnogi camau gweithredu'r Cynllun Gweithredu Eogiaid a Brithyllod Môr a gwerthuso'r sylfaen dystiolaeth a mynd i'r afael â thri chwestiwn:
 - i. A yw adar sy'n bwyta pysgod yn gysylltiedig â dirywiad ym mhoblogaethau pysgod gwyllt a/neu yn gysylltiedig ag atal adfer poblogaethau o'r fath?
 - ii. A yw adar sy'n bwyta pysgod yn gysylltiedig ag achosi difrod difrifol i bysgodfeydd dŵr llonydd?
 - iii. Os mai 'ydyn' yw'r atebion i'r ddau gwestiwn uchod, sut y gellir rheoli effaith ysglyfaethu gan adar sy'n bwyta pysgod ar bysgodfeydd gwyllt a dŵr llonydd?
9. Nodwyd pwysau amgylcheddol eraill ar boblogaethau salmonidau, megis y newid yn yr hinsawdd ac ansawdd dŵr, ond roeddent y tu allan i gwmpas y Grŵp Cynghori. Prif allbynnau'r Grŵp Cynghori oedd deg adroddiad tystiolaeth (**Atodiad 1**) a oedd yn llywio'r gwaith o ddatblygu Adroddiad Terfynol a chyfres o argymhellion (**Atodiad 2**), a gyflwynwyd i CNC (Mai 2022) i'w hystyried.
10. Roedd gwaith y Grŵp Cynghori yn rhan bwysig o'r adolygiad o ddull CNC o reoleiddio saethu a dal adar gwyllt yng Nghymru (Adolygiad o Adar Gwyllt).

Asesu: Adroddiad Terfynol ac Argymhellion y Grŵp Cynghori

11. Cynigiodd y Grŵp Cynghori gyfanswm o **19 o argymhellion (Atodiad 2)** i gefnogi ei safbwyntiau canlynol. Dyma grynodedb ohonynt:
 - Yn ogystal ag ysglyfaethu, mae llawer o ffactorau eraill yn effeithio ar boblogaethau pysgod gwyllt, sy'n ei gwneud yn anodd iawn dod i gasgliadau am effaith unrhyw bwysau penodol ar stociau pysgod;
 - Mae'r dystiolaeth sydd ar gael yn dangos bod adar sy'n bwyta pysgod yn gallu cael effaith negyddol ar boblogaethau pysgod gwyllt a physgodfeydd dŵr llonydd sydd wedi'u stocio o safbwynt gofodol a thymhorol, ond mae difrifoldeb yr effeithiau hyn yn anhysbys yn aml;
 - O ystyried y gostyngiad hirfaith mewn stociau eogiaid a brithyllod môr, mae angen mwy o gamau gweithredu wedi'u targedu i fynd i'r afael ag ysglyfaethu

¹Cadeirydd y Grŵp Cynghori yw'r Athro Steve Ormerod, ac mae'n cynnwys cynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru, CNC, y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar, Ymddiriedolaeth Adareg Prydain, Cymdeithas Adaryddol Cymru, Afonydd Cymru, Cadwraeth Eogiaid a Brithyllod Cymru, yr Ymddiriedolaeth Bysgota, yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Helfeydd a Bywyd Gwyllt, Natural England, NatureScot a dau gynghorydd gwyddoniaeth annibynnol.

gan adar sy'n bwyta pysgod, yn enwedig mewn dalgylchoedd lle mae stociau pysgod yn agored i niwed;

- Mae effaith ysglyfaethu gan adar sy'n bwyta pysgod ar leisiaid salmonid yn bryder mawr, ac mae angen ymdrechion penodol i liniaru pwysau gan ysglyfaethwyr yn yr achosion gwaethaf.
- Mae cyfuniad o fesurau nad ydynt yn angheuol a mesurau angheuol yn debygol o fod yn fwyaf effeithiol;
- Gallai trwyddedau sy'n seiliedig ar ddalgylchoedd neu ardaloedd ddarparu dull mwy strategol o drwyddedu a hwyluso prosesau rheoli adnoddau addasol gan roi ymyriadau ar waith yn fwy hyblyg;
- Mae'r rhyngweithio rhwng stociau pysgod ac adar sy'n bwyta pysgod yn gymhleth ac mae bylchau mawr mewn tystiolaeth allweddol o hyd;
- Mae angen mwy o dryloywder ym maes trwyddedu adar sy'n bwyta pysgod.

12. Er bod y grŵp yn cytuno ar 18 o'r 19 argymhelliad, roedd gwahaniaeth barn ar yr angen i ymestyn trwyddedau rheoli adar sy'n bwyta pysgod i gynnwys y cyfnod llawn pan fydd gleisiaid yn nofio i uchelfannau'r afon (gweler Argymhelliad 9 **Atodiad 2**).

13. Ystyriodd gweithgor mewnol holl argymhellion y Grŵp Cyngori ac mae wedi datblygu fframwaith adar sy'n bwyta pysgod sy'n cynnwys cyfres o 39 o gamau gweithredu arfaethedig mewn ymateb (**Atodiad 3**). Neilltuwyd pob cam gweithredu i un o chwe chategori adnoddau dangosol (CAT 1-6) er mwyn nodi a oes modd rhoi'r cam gweithredu ar waith trwy ddefnyddio adnoddau presennol (gweler **Atodiad 3**). Mae'r camau gweithredu arfaethedig yn gysylltiedig â pharamedrau amser a staff cyfrifol hefyd.

14. Mae ein camau gweithredu arfaethedig wedi'u nodi fesul cam: Blwyddyn 1 (23 cam gweithredu) – parhau â'n dull trwyddedu presennol wrth ddatblygu a phenderfynu ar newid; Blwyddyn 2 (10 cam gweithredu) – ymchwil a datblygu a rhoi newidiadau trwyddedu ar waith (e.e. trwyddedau dalgylchoedd, mesurau nad ydynt yn angheuol a mesurau angheuol wedi'u targedu); Blwyddyn 3 (6 cham gweithredu) – parhau i roi'r camau gweithredu ar waith ynghyd â gwyddoniaeth i fynd i'r afael â'r prif fylchau mewn tystiolaeth.

15. Bydd ein dull gweithredu yn sylfaen i'r gofyniad am ddull hierarchaidd o ddiogelu eogiaid a brithyllod môr trwy roi blaenoriaeth i ddulliau gofodol a thymhorol nad ydynt yn angheuol, yn enwedig pan fydd pysgod yn mudo yn y gwanwyn. Bydd dull rheoli angheuol trwyddedig yn parhau i fod yn ddewis olaf, a bydd yn cael ei ddefnyddio gyda dulliau nad ydynt yn angheuol i sicrhau'r effeithiolrwydd mwyaf posibl.

16. I grynhoi, rydym yn cynnig parhau i drwyddedu'r gwaith o reoli adar sy'n bwyta pysgod er mwyn cefnogi'r gwaith o warchod stociau salmonid sydd mewn perygl, yn ogystal ag atal difrod i bysgodfeydd. Trwy roi ein camau gweithredu arfaethedig ar waith, byddwn yn lleihau'r pwysau gan ysglyfaethwyr ar boblogaethau salmonid gwyllt a physgodfeydd wedi'u stocio, yn ogystal â chydnabod ein dyletswyddau i ddiogelu poblogaethau o fulfrain a hwyaid danheddog a dilyn egwyddorion SMNR.

Opsiynau

17. Gofynnir i'r Bwrdd ystyried tri opsiwn:

- Opsiwn 1** Gwneud dim byd ychwanegol a chadw ein dull presennol o drwyddedu rheolaeth angheuol o adar sy'n bwyta pysgod.
- Opsiwn 2** Bwrw ymlaen â'r holl gamau y gellir eu rhoi ar waith drwy ddefnyddio adnoddau staff presennol ar gyfer Blwyddyn 1 (blwyddyn ariannol 2022-23) a Blwyddyn 2 (blwyddyn ariannol 2023-24) (**Categoriâu Adnoddau 1-3**).
- Opsiwn 2** Bwrw ymlaen â'r holl gamau y gellir eu rhoi ar waith drwy ddefnyddio adnoddau staff presennol ar gyfer Blwyddyn 1 (blwyddyn ariannol 2022-23) a Blwyddyn 2 (blwyddyn ariannol 2023-24) (**Categoriâu Adnoddau 1-3**) a chwilio am gyfleoedd ariannu i roi'r holl gamau gweithredu ar waith sydd angen cyllid ychwanegol (**Categoriâu Adnoddau 4-6**).

Argymhellir Opsiwn 3 ar yr amod ein bod yn sicrhau adnoddau ychwanegol ar ôl Blwyddyn 1 i wneud y gwaith gofynnol. Os nad oes modd sicrhau adnoddau ychwanegol dros y ddwy flynedd nesaf, byddwn wedi rhoi opsiwn 2 ar waith mewn gwirionedd.

Risgiau a chyfleoedd

18. Os na fabwysiedir ein dull dewisol (**Opsiwn 3**), rydym mewn perygl o:

- Beidio â chyflawni ein dyletswyddau gwarchod natur a physgodfeydd i ddiogelu rhai o'n rhywogaethau mwyaf agored i niwed sy'n wynebu'r perygl mwyaf;
- Peidio â diwallu anghenion a bodloni disgwyliadau rhanddeiliaid, yn benodol o ran peidio â mynd i'r afael â'r pwysau amrywiol ar stociau eog a brithyll môr fel y nodir yn y Cynllun Gweithredu Eogiaid a Brithyllod Môr;
- Peidio â chyflawni ein dyletswyddau fel yr awdurdod trwyddedu cymwys, trwy barhau i roi trwyddedau ar gyfer dulliau angheuol o reoli mulfrain a hwyaid danheddog heb ystyried y sylfaen dystiolaeth bresennol;
- Parhau i weithredu mewn ffordd sy'n anghyson â'r dull o drwyddedu gwaith rheoli adar sy'n bwyta pysgod yn Lloegr a'r Alban;
- Her gyfreithiol gan Gyrrff Anllywodraethol Amgylcheddol neu grwpiau ymgyrchu yn y DU.

Noder bod yr un risgiau a amlinellir uchod yn berthnasol i Opsiwn 2 ond byddai dim ond yn lliniaru rhai o'r risgiau yn rhannol.

19. Os yw **Opsiwn 3** yn cael ei fabwysiadu, bydd y canlynol yn berthnasol:

- Ymrwymiadau adnoddau sylweddol (staff a chyllideb flynyddol) i fynd i'r afael â'r cynllun gweithredu llawn a'i roi ar waith.
- Risgiau i enw da, os na fydd disgwyliadau grwpiau buddiant gwarchod adar a physgodfeydd yn cael eu bodloni, ac os yw poblogaethau salmonid yn parhau i ostwng.

- Cyfleoedd i roi hwb i warchod poblogaethau salmonidau sy'n agored i niwed yng Nghymru.
- Cyfleoedd i sicrhau bod penderfyniadau trwyddedu yn seiliedig ar dystiolaeth fwy cadarn a sicrhau nad yw rheolaeth angheuol o fulfrain a hwyaid danheddog yn cael effaith negyddol ar eu statws cadwraeth yng Nghymru.

Goblygiadau ehangach

20. Mae angen ystyried yr opsiwn a argymhellir gennym yng nghyd-destun y goblygiadau ehangach, sef:

- Cyllid:** Bydd angen adnoddau sylweddol i roi'r opsiwn rydym yn ei ffafrio ar waith.
- Cydraddoldeb:** Cwblhawyd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb fel rhan o'r Adolygiad o Adar Gwyllt ac fe gafodd ei gynnwys ym mhapur Bwrdd CNC (Cyf: 22-03-B15). Bydd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ychwanegol yn cael ei gwblhau ar gyfer y cam gweithredu.
- Cyfreithiol:** Mae'n bosibl y bydd goblygiadau cyfreithiol a gofyniad am gyngor cyfreithiol, gan ddibynnu ar unrhyw newidiadau i'n dull trwyddedu presennol.
- Diogelu Data:** Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw oblygiadau o safbwynt prosesu data personol, ac nid ydym yn rhagweld y bydd angen Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data.
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:** Bydd yr opsiwn a argymhellir yn cefnogi ac yn cyfrannu at gyflawni amcanion llesiant ein Cynllun Corfforaethol.

Camau nesaf

21. Amlinellir y camau nesaf arfaethedig isod:

Pryd	Sut
Gorffennaf 2022	<ul style="list-style-type: none"> • Cyhoeddi Adroddiad Terfynol ac Argymhellion y Grŵp Cyngori a phapur Bwrdd CNC. • Gofyn am gymeradwyaeth y Bwrdd ar gyfer ein hymateb arfaethedig i argymhellion y Grŵp Cyngori.
Awst 2022 – Mawrth 2023	<ul style="list-style-type: none"> • Ymgymryd â chamau gweithredu Blwyddyn 1 yn seiliedig ar ddyraniadau adnoddau presennol. • Parhau i benderfynu ar geisiadau am drwyddedau i reoli adar sy'n bwyta pysgod trwy ddefnyddio ein dull presennol wrth i ni benderfynu pa newidiadau sydd eu hangen. • Dechrau nodi manau peryglus ar gyfer gleisiaid sy'n mudo i lawr yr afon ym mhrif afonydd eogiaid. • Nodi a cheisio sicrhau'r adnoddau ychwanegol sydd eu hangen i gymryd y camau sy'n gysylltiedig â chategoriâu adnoddau 4-6.

	<ul style="list-style-type: none"> • Mynd i'r afael â disgwyliau rhanddeiliaid trwy barhau i ymgysylltu â'r Grŵp Cynghori ar Adar sy'n Bwyta Pysgod, Fforwm Pysgodfeydd Cymru a Grwpiau Pysgodfeydd Lleol.
Ebrill 2023 – Mawrth 2024	<ul style="list-style-type: none"> • Cyflwyno proses ddiwygiedig o drwyddedu adar sy'n bwyta pysgod a fydd yn dod yn rhan hanfodol o sut rydym yn gwneud penderfyniadau, sut rydym yn gweithredu a beth rydym yn ei ddweud. • Gan ddibynnu ar gyllid, cynorthwyo'r broses o ddefnyddio dulliau nad ydynt yn angheuol mewn lleoliadau gleisiaid sy'n agored iawn i niwed a recriwtio neu gaffael cydgysylltydd pysgodfeydd. • Adolygu ein gweithdrefnau a'n canllawiau trwyddedu i gynyddu hyder ynddynt.
Ebrill 2024 – Mawrth 2025	<ul style="list-style-type: none"> • Gan ddibynnu ar gyllid, caffael astudiaethau gwyddonol i fynd i'r afael â bylchau allweddol mewn tystiolaeth.

22. Os yw'r Bwrdd yn cymeradwyo **Opsiwn 3**, cynigir y bydd cydberchnogaeth prosesau cyflawni rhwng Rheoleiddio, Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau, Rheoli Pysgodfeydd a Thystiolaeth Integredig.

Argymhelliad

23. Gofynnir i'r Bwrdd:

- **Cymeradwyo** ein dull gweithredu arfaethedig fel ymateb ystyriol i argymhellion y Grŵp Cynghori ar Adar sy'n Bwyta Pysgod (**Atodiad 3**).
- **Cymeradwyo'r** dull gweithredu a argymhellir gennym - **Opsiwn 3** yn amodol ar sicrhau cyllid ychwanegol ar gyfer gwaith sydd angen ei wneud.
- **Cymeradwyo'r** camau nesaf arfaethedig.

Mynegai Atodiadau

Atodiad 1 Rhestr o adroddiadau a gyhoeddwyd.

Atodiad 2 Rheoli effeithiau ysglyfaethu gan adar sy'n bwyta pysgod mewn pysgodfeydd yng Nghymru: Argymhellion y Grŵp Cynghori Cymru ar Adar sy'n Bwyta Pysgod.

Atodiad 3 Cam gweithredu arfaethedig mewn ymateb i Argymhellion y Grŵp Cynghori ar Adar sy'n Bwyta Pysgod.

Annex 1. Inventory of published reports

- Carss, D., N. and Russell, I., C.** 2022. A synopsis of UK and European cormorant and goosander dietary studies. NRW Evidence Report Series (No. 591).
- Macgregor C.J., Boersch-Supan, P., and Taylor, R.C.** 2022. Spring 2021 survey of Cormorant and Goosander on the River Usk. NRW Evidence Report Series (No. 593).
- Macgregor, C.J., Boersch-Supan, P.H., Burton, N.H.K., Carss, D.N., Newson, S.E., Pearce-Higgins, J.W., Robinson, R.A., and Taylor, R.C.** 2022. Informing decisions on lethal control of great cormorant and goosander in Wales: scenarios from Population Viability Analysis. NRW Evidence Report Series (No. 615).
- NRW.** 2020. Salmon stock performance in Wales 2020
- NRW.** 2020. Sea trout stock performance in Wales 2020
- NRW.** 2022. NRW's approach to regulating the shooting and trapping of wild birds and the destruction of eggs and nests: Summary of responses to the public consultation in relation to fish-eating birds.
- Russell, I. C. and Carss, D. N.** 2022. Appraisal of the effectiveness of non-lethal and lethal control of fish-eating birds in preventing serious damage to natural and stocked fisheries. NRW Evidence Report Series (No. 594).
- Russell, I. C., Owen, M., Bellini, L.** 2022. An appraisal of the potential for using catchment or area-based licences to reduce the impact of fish-eating birds on Welsh freshwater fisheries. NRW Evidence Report Series (No. 595).
- Taylor, R.C., Boersch-Supan, P., Cooper, C., O'Connell, P., Wetherhill, P., Bowgen, K., MacGregor C. and Calladine, J.** 2022. A winter census (2020/21) of cormorant and goosander in Wales. NRW Evidence Report Series (No. 592).
